

# Canfyddiadau o Dwf mewn dwy Dref Farchnad Gymreig

Ellen Hjort, Sophie Bennett-Gillison, Thora Tenbrink, Elen Bonner, Eifiona Thomas-Lane, Bronwen Raine a Julie Jones

CYMRU WLEDIG LPIP RURAL WALES

# Canfyddiadau o Dwf mewn dwy Dref Farchnad Gymreig

## Tabl cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ........ 3

**1. Cefndir** ........ 7

**1.1 Cyd-destun y Gymru wledig** ........ 8

**1.1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** ........ 8

**1.1.2 Bargeinion twf** ........ 8

**1.1.3 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** ........ 8

**1.1.4 Asiantaethau datblygu** ........ 9

**1.1.4 Diddordeb presennol yn y dull asiantaeth** ........ 9

**1.1.5 Dulliau datblygu o dan arweiniad y gymuned** ........ 10

**1.2 Busnesau bach a busnesau ffordd o fyw** ........ 10

**1.3 Yr economi leol, cyfanheddrwydd a busnesau llawn pwrpas** ........ 12

**1.4 Yr economi gylchol a chynaliadwyedd** ........ 13

**1.5 Y gogwydd tuag i fyny sy'n perthyn i dwf** ........ 14

**2. Dulliau** ........ 16

**2.1 Yr astudiaethau achos** ........ 18

**2.3 Y Cyfranogwyr** ........ 19

**3. Dadansoddiad** ........ 23

**3.1 Twf fel ffordd o feithrin cymuned** ........ 26

**3.2 Twf o'r gwaelod i fyny?** ........ 27

**3.3 Twf fel ffordd o barhau a goroesi** ........ 29

**3.3.1 Busnesau ffordd o fyw** ........ 30

**3.3.2 Strategaethau goroesi** ........ 31

3.3.3 Diben cymunedol ..... 31
3.4 Rhwystrau a naratifau ..... 32
3.4.1 Masnach ffisegol a dad-dwf direol ..... 32
3.1.3 Marchnata, gweledigaethau a chydweithredu ..... 33
3.4.2 Rhwystrau sy'n wynebu busnesau bach ..... 34
3.5 Twf trwy gyfrwng cyfleoedd ..... 34
3.5.1 Cyfleoedd swyddi ..... 35
3.5.2 Addysg / Hyfforddiant ..... 36
3.6 Yr economi sylfaenol ..... 37
3.6.1 Ymdeimlad lleol o berthyn a gwasanaethau lleol ..... 37
3.6.2 Perchnogaeth gyhoeddus ..... 38
3.6 Twf cynaliadwy ..... 39
3.8 Syniadau traddodiadol ynglŷn â thwf ..... 40
4. Cwestiynau polisi hollbwysig ..... 43
4.1 Sut y gall y llywodraeth hwyluso mwy o fuddsoddi yn yr economi, yn enwedig o ystyried seilwaith, pensiynau a busnesau bach a chanolig . 43
4.2 Sut y gellir llunio polisïau mewn modd a fydd yn cefnogi cynhyrchiant a thwf yn well ..... 44
4.3 Sut y dylai'r llywodraeth dargedu adnoddau er mwyn ysgogi twf economaidd a meithrin cadernid oddi mewn/rhwng lleoedd, gan sicrhau bod y manteision yn cyrraedd y cymunedau sydd fwyaf eu hangen? ..... 45
4.4 Beth yw'r cyfnewidiadau rhwng mynd ar drywydd twf economaidd lleol a gwella cadernid economïau lleol? ..... 46
5. Casgliad ac argymhellion ..... 47
5.1 Enghreifftiau o arfer da ..... 47
5.2 Argymhellion ar gyfer ymarferwyr ..... 48
5.3 Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi ..... 50

**Cyfeiriadau a Ffynonellau** ................................ **Fel! Bokmärket är inte definierat.**

# Crynodeb Gweithredol

Nod yr ymchwil hon oedd gweld sut y caiff twf, o ran datblygu busnesau a chymunedau, ei ddirnad gan y rhai sy'n gweithio ac yn byw mewn trefi gwledig yng Nghymru. Defnyddiwyd astudiaethau achos yn ymwneud â Llanidloes (Canolbarth Cymru) a Llangefni (Gogledd Cymru) i archwilio canfyddiadau o dwf a'r modd y gellir ategu menter yn y lleoliadau hyn, trwy ddeall yn well beth mae twf a datblygiad yn ei olygu i'r rhai sy'n byw yno.

Mae'r darlun cyffredinol a ddaw i'r amlwg yn dangos mai cyfyngedig iawn yw'r gefnogaeth ymhlith y cyfranogwyr i ymagwedd at dwf yn y dull 'tuag i fyny' traddodiadol, h.y. o ran ehangu a chynyddu elw neu gyrhaeddiad, ac eithrio yn nisgwrs rhai llunwyr polisïau. Yn hytrach, mae cymunedau a busnesau bach yn gweld twf fel ffordd ymlaen neu ffordd o wella. Mae'r tabl isod (tabl 1) yn crynhoi themâu a safbwyntiau mwy penodol a bennwyd yn y gwaith hwn mewn perthynas â thwf, a hefyd nodir argymhellion cysylltiedig.

| **Y math o dwf a bennwyd yn yr astudiaeth hon** | **Crynodeb byr** | **Argymhellion** |
|---|---|---|
| Twf fel ffordd o feithrin cymuned | Caiff twf ei weld fel ymdrech gymunedol y mae pobl yn cymryd rhan ynddi er mwyn gwella'u cymuned. Mae busnesau lleol llewyrchus yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn. | **Cydnabod Twf Cymunedol**<br>Dylai mentrau twf gael eu teilwra'n ôl y lleoliadau penodol y maent yn effeithio arnynt, gan gydnabod sut mae cymunedau'n gweld twf fel gweithgaredd cymunedol a beth mae hyn yn ei olygu i strategaethau twf a dyheadau twf. |
| | | **Hybiau cymunedol**<br>Dylid annog hybiau cymunedol fel mannau lle gall aelodau'r gymuned gyfarfod, rhyngweithio, rhoi cynnig ar syniadau busnes a meithrin cymuned. Gall mannau o'r fath ddenu unigolion i ganol trefi a chreu rhagor o gyfleoedd. |
| Twf o'r gwaelod i fyny | Caiff twf ei weld fel rhywbeth y mae angen iddo ddigwydd mewn rhyw le ar ei delerau ei hun, ar sail gwerthoedd sydd eisoes ar waith. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pwy a fydd yn diffinio lle a diwylliant. | **Dangosyddion twf sy'n seiliedig ar leoedd**<br>Dylai pob polisi fod â dangosyddion penodol o'r cychwyn cyntaf – sef rhai'n ymwneud yn benodol â'r polisi a hefyd ag anghenion ac amcanion y lleoedd lle byddant yn cael eu rhoi ar waith. |
| | | **Cydraddoldeb a chynhwysiant** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae angen i ddulliau twf sy'n seiliedig ar leoedd gydnabod allgáu a dynameg pŵer mewn lleoedd – ynghyd ag ymdrin â'r elfennau hynny – er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. |
| Twf fel ffordd o barhau / goroesi | Caiff twf ei weld fel ffordd o allu parhau â busnes, cynnal y gweithrediadau cyfredol a mynd ati'n barhaus i wneud bywoliaeth o fusnes gwledig. | **Ategu dyheadau cymunedol/dyheadau ffordd o fyw**<br>Dylid sicrhau bod cymorth busnes wedi'i deilwra ar gael i ficrofusnesau â dyheadau cymunedol neu ddyheadau ffordd o fyw, a hefyd i fusnesau hunangyfogedig, busnesau e-fasnach, busnesau digidol neu fusnesau heb safleoedd busnes penodol. |
| | | **Cydnabod y manteision economaidd sy'n perthyn i fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned**<br>Mae busnesau sy'n eiddo i'r gymuned, a chanddynt ddibenion cymunedol, yn cael effaith fawr ar gyflogaeth, darpariaeth gwasanaethau ac ansawdd bywyd, ac o'r herwydd dylid eu cefnogi a'u hannog. |
| | | **Rhwydweithiau cydweithredol**<br>Dylid gwella arlwy trefi trwy gyfrwng rhwydweithiau cydweithredol sy'n cynnwys amryfal randdeiliaid, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â threfi marchnad. |
| Twf sylfaenol | Gellir esgor ar dwf trwy gyfrwng seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus digonol, a gellir creu twf trwy fuddsoddi yn yr elfennau hyn. | **Buddsoddi yn yr economi sylfaenol ac mewn perchnogaeth gymunedol**<br>Buddsoddi'n strategol mewn seilwaith, gwasanaethau, tai a seilwaith ffisegol trefi, gan alluogi'r cyhoedd neu'r gymuned i fod yn berchen ar asedau a ddefnyddir yn gyffredin. |
| | | **Annog perchnogaeth gymunedol**<br>Dylid rhoi cymorth i gymunedau sy'n dymuno bod yn berchen ar seilwaith neu wasanaethau allweddol yn eu hardal. |

| | | |
|---|---|---|
| Twf trwy gyfrwng cyfleoedd | Gellir creu twf trwy gyfrwng cyfleoedd a fydd yn galluogi pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig neu symud i ardaloedd gweledig, a chael cyfleoedd swyddi a hyfforddiant priodol. | **Targedu recriwtio**<br>Dylai busnesau hysbysebu swyddi gwag ymhlith eu darpar weithwyr, gan nodi'r gwerthoedd a'r cyfraniadau cymdeithasol penodol sy'n perthyn i'w harlwy swyddi. Yna, dylid defnyddio'r arlwy a'r gwerthoedd busnes yn gyson ar draws y platfformau a ddefnyddir gan y busnes. |
| | | **Dosbarthu cyfleoedd addysg a hyfforddiant**<br>Dylid sicrhau mynediad at gyfleoedd hyfforddiant ac addysg mor agos â phosibl at bobl, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi hygyrch i bobl sydd mewn cyflogaeth ac sydd angen uwchsgilio. O'r herwydd, mae angen darparu hyn oll mewn ffyrdd hyblyg, a fydd yn hygyrch ledled Cymru. |
| Twf cynaliadwy | Rhaid sicrhau bod rhagolygon hirdymor yn perthyn i dwf, o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a sicrwydd cymdeithasol ac ariannol. | **Datblygu cynaliadwy**<br>Dylai ymagweddau rhanbarthol at dwf ystyried amrywiaeth eang o ddangosyddion, yn cynnwys iechyd, gwahaniaethu, allgáu a diogelwch. |
| | | **Dull hirdymor**<br>Dylid ystyried sut y gellir sicrhau bod strategaethau'r sector cyhoeddus yn fwy hirdymor ac yn annibynnol ar gyllid grant. |
| | | **Ffyrdd cynaliadwy o fwrw ymlaen**<br>Dylid parhau i weithio tuag at gynaliadwyedd ac economïau gwyrdd ar lefel ranbarthol. |
| | | **Cymorth i fentrau cymdeithasol**<br>Cyngor i fusnesau sy'n dymuno bod yn fwy bwriadus, neu i fentrau sy'n dymuno rhoi dull 'menter gymdeithasol' ar waith er mwyn bod yn annibynnol ar gyllid grant. |
| Twf traddodiadol | Caiff twf ei weld fel cynhyrchiant, gwerth ychwanegol gros a mewnfuddsoddi. | **Dulliau gwerthuso sy'n gweddu i'r targedau**<br>Dylid gwerthuso'r modd y cyflawnir polisïau trwy ddefnyddio dangosyddion sy'n mesur yn ddigonol y canlyniadau a chwenychir. Dylai ymagweddau rhanbarthol at dwf ystyried amrywiaeth eang o ddangosyddion, |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn cynnwys iechyd, gwahaniaethu, allgáu a diogelwch. |
| | | **Diffiniadau 'addas i'r diben' o dwf** Dylai diffiniadau o dwf a ddefnyddir wrth weithio gyda chymunedau fod yn seiliedig ar ddiffiniadau cymunedol, a hefyd dylent fod yn seiliedig ar ddiben yr ymyriadau. |

Tabl 1: Mae'r tabl hwn yn rhestru'r ymagweddau at dwf a bennwyd yn yr ymchwil hon, ynghyd â'r argymhellion sy'n gysylltiedig â phob canfyddiad.

# 1. Cefndir

Yn aml, mae twf a datblygiad economaidd ar lefel ranbarthol neu gymunedol yn gysylltiedig ag incwm uwch,[1] gwell ansawdd bywyd a safonau byw uwch, gan gydymffurfio â throsiadau cysyniadol disyflyd[2] sy'n awgrymu bod "mwy yn well" ac y bydd "y dyfodol yn well" – sef syniadau sy'n gwbl sylfaenol i sawl cymdeithas fodern. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau mae hyn yn berthnasol i ardaloedd gweledig, ac nid yw'n glir ychwaith i ba raddau y caiff hyn ei ddeall mewn ardaloedd gweledig. Mae'r astudiaeth hon wedi ymchwilio i'r modd y caiff twf ei ddirnad gan fusnesau, aelodau o'r gymuned, sefydliadau cymunedol a llunwyr polisïau mewn dwy dref farchnad wledig yng Nghymru, sef Llanidloes a Llangefni.

Yn draddodiadol, mae'r modd y caiff twf busnesau bach ei ddeall yn canolbwyntio'n aml ar bresenoldeb neu absenoldeb ffactorau fel adnoddau[3], prosesau penderfynu effeithiol,[4] amgylchedd ffafriol[5] a sgiliau perchnogion busnesau/entrepreneuriaid; [6] o ran effeithio ar y gallu i ehangu busnes neu gynyddu elw. Yna, caiff modelau twf eu creu ar sail hyn oll.[7] Fodd bynnag, ni chyfyngir canfyddiadau/dealltwriaeth o dwf i ehangu a phroffidioldeb yn achos pob busnes. Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, efallai y bydd entrepreneuriaid yn cychwyn busnes er mwyn esgor ar ffordd arbennig o fyw neu er mwyn gallu byw mewn lleoliad arbennig.[8]

Bydd strwythur yr adroddiad yn dilyn y drefn ganlynol: Bydd Adran 1 yn nodi modelau twf perthnasol, ynghyd â strategaethau twf a datblygu a roddwyd ar waith yn y Gymru wledig. Bydd Adran 2 yn nodi'r fethodoleg ac yn cyflwyno'r ddwy astudiaeth achos. Yna, ceir ddadansoddiad lle trafodir cymunedau economaidd lleol (3.1), twf o'r gwaelod i fyny (3.2), twf fel ffordd o barhau a goroesi (3.3), a'r naratifau sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn mewn perthynas â rhwystrau twf (3.4). Bydd yr adrannau nesaf yn ymdrin â thwf a chyfleoedd (3.5), yr economi sylfaenol (3.6), twf cynaliadwy (3.7) a chysyniadau traddodiadol o dwf (3.8). Yn Adran 4, ymatebir i bedwar cwestiwn cyfredol ar gyfer polisi; ac yn adran 5, cyflwynir casgliadau ac argymhellion.

---

[1] CRAFTS, N. 2015. Economic growth: onwards and upwards?. *Oxford Review of Economic Policy*, 31, 217-241.
[2] LAKOFF, G. a JOHNSON, M. 1980. *Metaphors we live by*. Gwasg Prifysgol Chicago.
[3] DOBBS, M. a HAMILTON, R. T. 2007. Small business growth: recent evidence and new directions. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 13, 296-322.
[4] KUDYBA, S., FJERMESTAD, J. a DAVENPORT, T. 2020. A research model for identifying factors that drive effective decision-making and the future of work. *Journal of Intellectual Capital,* 21, 835-851.
[5] SIEJA, M. a WACH, K. 2019. The Use of Evolutionary Algorithms for Optimization in the Modern Entrepreneurial Economy: Interdisciplinary Perspective. *Entrepreneurial Business and Economics Review,* 7, 117-130.
[6] GREBEL, T., PYKA, A. a HANUSCH, H. 2003. An Evolutionary Approach to the Theory of Entrepreneurship. *Industry and Innovation,* 10, 493-514.
[7] STEFFENS, P., DAVIDSSON, P. a FITZSIMMONS, J. 2009. Performance Configurations over Time: Implications for Growth– and Profit–Oriented Strategies. *Entrepreneurship Theory and Practice,* 33, 125-148.
[8] SKOKIC, V. a MORRISON, A. 2011. Conceptions of Tourism Lifestyle Entrepreneurship: Transition Economy Context. *Tourism Planning & Development,* 8, 157-169.

## 1.1 Cyd-destun y Gymru wledig

### 1.1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn 2015, rhoddwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith yng Nghymru.[9] Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.[10] Bydd hyn yn cael ei wneud er mwyn cyflawni saith nod llesiant, sef: Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal, cymunedau cydlynus, diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.[11]

Mae nifer o ddangosyddion cenedlaethol yn perthyn i'r ddeddf y gellir deall eu bod yn ymwneud â thwf economaidd, neu ffyrdd eraill o ddeall twf, yn cynnwys cymwysterau, incwm gwario gros aelwydydd fesul pen o'r boblogaeth, bylchau cyflog, tlodi incwm, lefelau cyflogaeth, gwerth ychwanegol gros yn ôl yr oriau a weithiwyd a mwy.[12]

### 1.1.2 Bargeinion twf

Mae polisïau cyfredol sy'n annog datblygu economaidd yng Nghymru yn cynnwys bargeinion twf a bargeinion dinesig. Mae Bargen Uchelgais Gogledd Cymru, a lofnodwyd yn 2020, a Bargen Twf Canolbarth Cymru, a lofnodwyd yn 2022, yn berthnasol i'r astudiaethau achos hyn. Nod y bargeinion o dan sylw yw creu rhagor o swyddi, cynyddu Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a denu buddsoddiad i'w hardaloedd. Mae bargeinion twf rhanbarthol yn tarddu o bolisïau dinesig sy'n credu bod gan ddinasoedd gyfleoedd unigryw o ran twf economaidd.[13] Yn aml, mae'r rhesymeg hon yn gweld dinasoedd fel 'injans twf' sy'n tynnu ardaloedd gwledig amgylchynol gyda nhw, a'r perygl yw y gall hyn arwain at greu hierarchaethau a pherifferïau, yn ogystal ag arwain at allgáu.[14]

### 1.1.3 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Mae'r ddogfen gynllunio a elwir yn 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn nodi materion allweddol ar gyfer cymunedau ac economïau gwledig mewn perthynas â diboblogi ac anghydbwysedd demograffig a achosir gan fynediad amhriodol neu annigonol at swyddi, tai a seilwaith.[15] Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar addasu i newid hinsawdd a lliniaru newid hinsawdd, ynghyd â chynllunio trefol, gan anelu at greu 'twf

---

[9] CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[10] LLYWODRAETH CYMRU. 2025. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion* [Ar-lein]. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html [Cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].
[11] Ibid.
[12] LLYWODRAETH CYMRU. 2022. *Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru* [Ar-lein]. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-2021-html [Cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].
[13] WAITE, D. a MORGAN, K. 2018. City Deals in the polycentric state: The spaces and politics of Metrophilia in the UK. *European Urban and Regional Studies,* 26**,** 382-399.
[14] HARRISON, J. a HELEY, J. 2015. Governing beyond the metropolis: Placing the rural in city-region development. *Urban Studies,* 52**,** 1113-1133.
[15] LLYWODRAETH CYMRU 2021. Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Caerdydd. Llywodraeth Cymru.

cynaliadwy' sy'n seiliedig ar sylfeini cadarn, diwydiannau'r dyfodol a rhanbarthau cynhyrchiol a fydd yn meithrin cydnerthedd cymunedol.[16]

### 1.1.4 Asiantaethau datblygu

Rhwng 1957-2006, cafwyd cyfres o sefydliadau ac asiantaethau datblygu a oedd yn anelu at hybu twf yn y Canolbarth ac yn y Gymru wledig. Ariannwyd Corfforaeth Datblygu Diwydiannol Canolbarth Cymru gan awdurdodau lleol y Canolbarth o 1957,[17] ac yna fe'i disodlwyd gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig ym 1976. [18] Unodd y Bwrdd hwnnw ag Awdurdod Datblygu Cymru ym 1998[19]. Diddymwyd Awdurdod Datblygu Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2006.[20]

Nod yr asiantaethau hyn oedd mynd i'r afael â'r dirywiad yn y boblogaeth trwy ddenu buddsoddiad diwydiannol a fyddai'n cynhyrchu rhagor o swyddi yng Nghanolbarth Cymru.[21] Ystyriwyd bod natur wledig y boblogaeth yn broblem yr oedd angen mynd i'r afael â hi trwy ddenu diwydiannau a phreswylwyr i'r trefi.[22] Erbyn i'r sefydliadau gael eu diddymu, roeddynt wedi symud tuag at ddatblygu lleol o dan arweiniad y gymuned, er enghraifft trwy ddarparu cyllid LEADER a chyllid yr UE [23] a thrwy redeg cynlluniau cymorth.[24]

### 1.1.5 Diddordeb presennol yn y dull asiantaeth

Mewn ymchwiliad i gynhyrchiant gwledig, a ryddhawyd yn 2024 gan Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar gyfer Twf Gwledig, gofynnwyd am ailsefydlu bwrdd datblygu gwledig â chyfrifoldeb dros dwf gwledig a chreu strategaeth datblygu gwledig i Gymru a fyddai'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r economi, seilwaith a chysylltedd; tai a chynllunio; cynhyrchu bwyd a'r gadwyn gyflenwi; a thwristiaeth.[25]

---

[16] Ibid.

[17] MWIDA 1960. *Development in Mid-Wales : a review of the Mid-Wales Industrial Development Association 1957-1959, and recommendations on future action,* Aberystwyth, Cymdeithas Datblygu Diwydiannol Canolbarth Cymru.

[18] ALDEN, J., LEHMANN, L., MARTIN, M. a NEWCOMBE, V. 1983. *Regional development policies for rural areas: mid Wales,* Caerdydd, Adran Cynllunio Trefol, Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru.

[19] WELSH, M. a HELEY, J. 2023. Rural regionalism in the 21st century: a tale of no cities. *Territory, Politics, Governance,* 11**,** 1439-1458.

[20] GOOBERMAN, L. a BOYNS, T. 2019. The Welsh Development Agency: activities and impact, 1976 to 2006. . *In:* MISKELL, L. (ed.) *New Perspectives on Welsh Industrial History.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

[21] HOWE, J. 1996. A Case of Inter-agency Relations: Regional development in Mid Wales. *Planning Practice & Research,* 11**,** 61-72.

[22] LAW, D. a HOWES, R. 1972. *Mid-Wales, an assessment of the impact of the Development Commission Factory Programme,* Llundain, H.M.S.O.

[23] Arsyllfa Wledig Cymru 2004. An Overview of Policy and Resources Impacting on Rural Wales. Arsyllfa Wledig Cymru.

[24] GOOBERMAN, L. a BOYNS, T. 2019. The Welsh Development Agency: activities and impact, 1976 to 2006. . *Yn:* MISKELL, L. (ed.) *New Perspectives on Welsh Industrial History.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

[25] Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GYFER TWF GWLEDIG. Cynhyrchu Twf yn yr Economi Wledig: ymchwiliad i gynhyrchiant gwledig yng Nghymru.

Ymhellach, argymhellodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg y dylid sefydlu corff i gydlynu ac arwain gweithgareddau'n ymwneud a'r Gymraeg a datblygu economaidd mewn ardaloedd ag arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.[26]

### 1.1.6 Dulliau datblygu o dan arweiniad y gymuned

Dechreuodd dulliau cyfranogi cymunedol ddatblygu yn y DU tua diwedd y 1960au[27] a chânt eu defnyddio hyd heddiw mewn gwahanol ffyrdd. Nod Datblygu Cymunedol yw cryfhau'r gymdeithas sifil a grymuso cymunedau trwy weithio gyda'u safbwyntiau i ddatblygu polisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.[28]

Gellir dweud hefyd fod tri phrif amcan yn perthyn i Ddatblygu Cymunedol, sef: gwella gallu lleol, goresgyn methiannau yn y farchnad a hwyluso i rymuso ardaloedd.[29] Gellir ystyried bod dulliau o dan arweiniad y gymuned yn llwyddiannus gan eu bod yn cyfuno ymgynghori lleol ag adnoddau i wireddu gweledigaethau cymunedau.[30]

Yn y 1990au, daeth Datblygu Gwledig Integredig yn ddylanwadol yn y DU a'r UE.[31] Mae Datblygu Gwledig Integredig yn gweld ardaloedd gwledig fel mannau amlddefnydd ag amryfal fuddiannau,[32] gan wrthod dulliau 'seilo' lle mae gan wahanol sectorau eu polisïau eu hunain yn hytrach na'u bod yn canolbwyntio'n gyfannol ar ardaloedd gofodol.[33]

## 1.2 Busnesau bach a busnesau ffordd o fyw

Ystyrir bod entrepreneuriaeth yn ffordd o gynnal bywiogrwydd mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth trwy wneud y defnydd gorau o adnoddau a thrwy ragweld tueddiadau cyfredol.[34] Yn draddodiadol, mae theori economaidd yn tueddu i bwysleisio cyfyngiadau allanol yn hytrach na nodi a yw'r busnes yn mynd ar drywydd twf.[35] Mae modd i entrepreneuriaid – sef pobl arloesol, greadigol, sy'n gallu troi risg yn elw[36] – gael effaith

[26] Y COMISIWN CYMUNEDAU CYMRAEG. 2024. Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg: Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-08/grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg.pdf
[27] EDWARDS, B. 1998. Charting the discourse of community action: Perspectives from practice in rural Wales. *Journal of Rural Studies,* 14**,** 63-77.
[28] FRANCIS, D. a HENDERSON, P. 2004. Rural Community Development Practice in the United Kingdom and Ireland: A Scoping Paper. Carnegie Commission of Rural Community Development.
[29] MOSELEY, M. J. 2003. *Rural Development: Principles and Practice,* Llundain, Sage.
[30] GRIFFITHS, E., SHARP, N., GRUNHUT, S. a WOODS, M. 2023. An evaluation of LEADER in Wales. *Adroddiad GSR rhif 01/2023.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[31] BRISTOW, G. 2000. Structure, Strategy and Space:Issues of Progressing Integrated Rural Development in Wales. *European Urban and Regional Studies,* 7**,** 19-33.
[32] Arsyllfa Wledig Cymru 2004. An Overview of Policy and Resources Impacting on Rural Wales. Arsyllfa Wledig Cymru.
[33] BRISTOW, G. 2000. Structure, Strategy and Space:Issues of Progressing Integrated Rural Development in Wales. *European Urban and Regional Studies,* 7**,** 19-33.
[34] FULLER-LOVE, N., MIDMORE, P., THOMAS, D. a HENLEY, A. 2006. Entrepreneurship and rural economic development: a scenario analysis approach. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 12**,** 289-305.
[35] DOBBS, M. & HAMILTON, R. T. 2007. Small business growth: recent evidence and new directions. Ibid.13**,** 296-322.
[36] PETERS, M., FREHSE, J. & BUHALIS, D. 2009. The importance of lifestyle entrepreneurship: A conceptual study of the tourism industry. *PASOS,* 7**,** 393-405.

hollbwysig ar strategaethau busnes,[37] ac efallai y cânt eu cymell gan y gymuned yn hytrach na chan fantais ariannol.[38]

Yn aml, os oes yna botensial ar gyfer twf, mae polisïau'n rhagdybio bod y perchnogion yn dymuno gwireddu'r twf hwnnw.[39] Ond nid yw pob busnes yn gweld twf fel rhywbeth sy'n gysylltiedig ag elw ac ehangu. Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, efallai y bydd busnesau'n cyfosod elfen arbennig sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd gyda thwf busnes, gan anelu at gael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a sicrhau rheolaeth fanwl dros y busnes.[40, 41, 42]

Mae cymhellion hollbwysig dros redeg busnes yn cynnwys dymuno byw mewn ardal arbennig neu fod yn feistr arnoch eich hun.[43] Efallai fod agweddau fel profi llif yn y gwaith neu gyflawni nodau busnes yn cael eu gweld fel twf, yn annibynnol ar ehangu neu enillion elw.[44] Ymhellach, bydd gwahanol amgylchiadau'n esgor ar wahanol fathau o dwf, felly ni fydd polisïau sy'n cyfrannu at gynyddu gwerthiannau yn cyfrannu o angenrheidrwydd at dwf mewn cyflogaeth.[45]

Mae poblogaethau lleol bach yn gallu cyfyngu ar fasnach ac mae busnesau gwledig yn fwy tebygol o orlwytho eu marchnadoedd,[46] ond mae hyn hefyd yn eu hamddiffyn rhag cystadleuaeth.[47] Yn aml, fodd bynnag, mae gan fusnesau gwledig rwydweithiau cyflenwi rhyngwladol traws-leol[48] a rhwydweithiau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig ag ymdeimlad estynedig o'r lleol.[49]

---

[37] LEWIS, K. 2008. Small Firm Owners in New Zealand: In it for the 'good life' or growth? *Small Enterprise Research,* 16**,** 61-69.
[38] MOSELEY, M. J. 2003. *Rural Development: Principles and Practice,* Llundain, Sage.
[39] LEWIS, K. 2008. Small Firm Owners in New Zealand: In it for the 'good life' or growth? *Small Enterprise Research,* 16**,** 61-69.
[40] PETERS, M., FREHSE, J. a BUHALIS, D. 2009. The importance of lifestyle entrepreneurship: A conceptual study of the tourism industry. *PASOS,* 7**,** 393-405.
[41] SKOKIC, V. a MORRISON, A. 2011. Conceptions of Tourism Lifestyle Entrepreneurship: Transition Economy Context. *Tourism Planning & Development,* 8**,** 157-169.
[42] LEWIS, K. 2008. Small Firm Owners in New Zealand: In it for the 'good life' or growth? *Small Enterprise Research,* 16**,** 61-69.
[43] SKOKIC, V. a MORRISON, A. 2011. Conceptions of Tourism Lifestyle Entrepreneurship: Transition Economy Context. *Tourism Planning & Development,* 8**,** 157-169.
[44] DRNOVŠEK, M., SLAVEC, A. ac ALEKSIĆ, D. 2024. "I want it all": exploring the relationship between entrepreneurs' satisfaction with work–life balance, well-being, flow and firm growth. *Review of Managerial Science,* 18**,** 799-826.
[45] DOBBS, M. a HAMILTON, R. T. 2007. Small business growth: recent evidence and new directions. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 13**,** 296-322.
[46] FULLER-LOVE, N., MIDMORE, P., THOMAS, D. a HENLEY, A. 2006. Entrepreneurship and rural economic development: a scenario analysis approach. Ibid.12**,** 289-305.
[47] JONES, L., HELEY, J. a WATKIN, S. 2015. Local Cultures of the Ceredigion Economy: Practices of Endogenous Development in Rural Mid Wales. *Yn:* MCDONAGH, J., NIENABER, B. a WOODS, M. (golygyddion) *Globalization and Europe's rural regions.* Llundain: Routledge.
[48] WOODS, M., NIENABER, B. a MCDONAGH, J. Ibid.Globalization Processes and the Restructuring of Europe's Rural Regions.
[49] DUBOIS, A. a HEDSTRÖM, M. Ibid. A Spatial Perspective on Small Firm Networking from a Rural Periphery - the Case of Swedish Norrland.

## 1.3 Yr economi leol, cyfanheddrwydd a busnesau llawn pwrpas

Daeth safbwynt economaidd a ganolbwyntiai ar yr economi sylfaenol i'r amlwg yn y 2010au. Yn ôl Bentham et al (t. 7), dyma yw'r economi sylfaenol:

*"that part of the economy that creates and distributes goods and services consumed by all (regardless of income and status) because they support everyday life."*[50]

Mae hyn yn cynnwys iechyd, addysg, bwyd, seilwaith a sectorau eraill sydd i'w cael ym mhobman i ryw raddau, ni waeth be fo'r boblogaeth – sectorau na ellir eu lleoli fel arfer mewn gwledydd eraill ac nad ydynt yn destun cystadleuaeth ryngwladol.[51] Efallai y bydd y sectorau yr ystyrir eu bod yn 'sylfaenol' yn newid dros amser.[52] Amcangyfrifir bod yr economi sylfaenol yn cyflogi 40 y cant o weithlu'r DU,[53] ac efallai fod y ganran yn uwch fyth yng Nghymru.[54]

Mae sectorau'r Economi Sylfaenol yn cynnig sefydlogrwydd ac yn clustogi rhag newidiadau annisgwyl yn y farchnad. Gall hyn helpu i gydbwyso economïau lleol a chanolbwyntio ar ddulliau cyflymu twf sydd wedi'u hymwreiddio'n lleol (Beel et al., 2022).[55]

Ar hyn o bryd, caiff ffyniant economaidd rhanbarthol ei gymharu'n aml â Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fesul pen o'r boblogaeth. Dyma ddull diffygiol, oherwydd nid yw'n ystyried anghydraddoldebau incwm, costau byw na chyfoeth, ac mae'n darlunio'r economi fel rhywbeth sy'n cynhyrchu gwasanaethau defnyddiol a chynhyrchion ffisegol, heb ystyried beth ydynt, sut y maent wedi cyfrannu at y gymdeithas na'r pethau a gaiff eu heithrio.[56]

Yn hytrach, mae Froud et al[57] yn cynnig y cysyniad sydd ynghlwm wrth 'gyfanheddrwydd sylfaenol'm ('*foundational liveability'*) , sy'n ymwneud â sicrhau cyflenwad cyffredinol o wasanaethau, parchu bywyd affeithiol a chysylltiadol dinasyddion, a phryder am faterion amgylcheddol. Gellir cyfrifo cyfanheddrwydd sylfaenol trwy ystyried incwm gweddillol aelwydydd (incwm gros namyn trethi a thaliadau cymdeithasol) namyn costau tai a thrafnidiaeth ar gyfer gwahanol fathau o ddeiliadaethau.[58] Dangosir nad yw gwahaniaethau o ran cyfanheddrwydd i'w cael o angenrheidrwydd rhwng rhanbarthau,

---

[50] BENTHAM, J., BOWMAN, A., DE LA CUESTA, M., ENGELEN, E., ERTÜRK, I., FOLKMAN, P., FROUD, J., JOHAL, S, LAW, J. a LEAVER, A. 2013. Manifesto for the foundational economy. *CRESC Working Paper Series*.
[51] Ibid.
[52] EARLE, J., FROUD, J., JOHAL, S. a WILLIAMS, K. 2018. Foundational economy and foundational politics. *Welsh Economic Review,* 26**,** 38-45.
[53] BENTHAM, J., BOWMAN, A., DE LA CUESTA, M., ENGELEN, E., ERTÜRK, I., FOLKMAN, P., FROUD, J., JOHAL, S, LAW, J. a LEAVER, A. 2013. Manifesto for the foundational economy. *CRESC Working Paper Series*.
[54] EARLE, J., FROUD, J., JOHAL, S. a WILLIAMS, K. 2018. Foundational economy and foundational politics. *Welsh Economic Review,* 26**,** 38-45.
[55] BEEL, D., JONES, M. a REES JONES, I. 2022. *City Regions and Devolution in the UK*, Gwasg Prifysgol Bryste.
[56] FROUD, J., HASLAM, C., JOHAL, S., TSITSIANIS, N. a WILLIAMS, K. 2018. Foundational Liveability: rethinking territorial inequalities. *Working Paper No.5.* Foundational Economy Collective.
[57] Ibid.
[58] Ibid.

ond eu bod i'w cael rhwng cenedlaethau a gwahanol fathau o ddeiliadaethau.[59] Nid yw lleihau gwahaniaethau rhanbarthol mewn Gwerth Ychwanegol Gros yn debygol o arwain at welliannau pendant mewn cyfanheddrwydd.[60]

Mae pwysau cynyddol ar sectorau sylfaenol i gynhyrchu gwerth am arian yn hytrach na bodloni rhwymedigaethau cymdeithasol wedi creu nifer o swyddi â chyflogau isel ac amodau gwael.[61] Yn ogystal ag annog diwydiannau cystadleuol, dylai dull yr economi sylfaenol ddal cyfranogwyr lleol yn atebol a chodi safonau cymdeithasol[62] fel rhan o ecosystem fwriadus.

Mae 'busnes llawn pwrpas' yn safbwynt sy'n deall cyfrifoldeb busnesau i ddatrys problemau'r bobl a'r blaned mewn modd proffidiol heb gyfrannu at broblemau ychwanegol a heb elwa ar achosi problemau o'r fath.[63, 64] Mae busnesau bwriadus neu fusnesau a ysgogir gan bwrpas yn elwa ar ddarparu nwyddau a gwasanaethau sydd â gwerth cynhenid i gymdeithas ac i les cyffredin.[65]

## 1.4 Yr economi gylchol a chynaliadwyedd

Tueddir i ystyried bod twf busnes (y'i deellir fel ehangu) yn ddymunol gan ei fod yn cyfrannu at Gynnyrch Domestig Gros (GDP), yn helpu i greu swyddi ac yn cyfrannu at lesiant economïau cenedlaethol.[66] Gellir seilio hyn ar ddymuniad i gyflawni cyfiawnder trwy gynyddu cyfanswm y nwyddau y gellir eu dosbarthu, gan olygu y gellir diwallu mwy o anghenion a gwella safonau byw gan fod cyfoeth yn arwain at ryddid i siapio bywydau.[67] Ond ni cheir prawf bod effeithiau sy'n llifo i lawr wedi gweithio ar gyfer materion incwm a materion amgylcheddol.[68]

Mae'r Economi Gylchol yn datgysylltu twf economaidd a defnydd deunyddiau, ac er mai'r prif nod yw lleihau gwastraff a llygredd, ceir y potensial i esgor ar fanteision economaidd ar ffurf refeniw, swyddi a thwf economaidd.[69] Gellir gwrthbwyso enillion amgylcheddol a

---

[59] Ibid.
[60] Ibid.
[61] BENTHAM, J., BOWMAN, A., DE LA CUESTA, M., ENGELEN, E., ERTÜRK, I., FOLKMAN, P., FROUD, J., JOHAL, S, LAW, J. a LEAVER, A. 2013. Manifesto for the foundational economy. *CRESC Working Paper Series*.
[62] HANSEN, T. 2022. The foundational economy and regional development. *Regional Studies,* 56**,** 1033-1042.
[63] YR ACADEMI BRYDEINIG 2021. Policy & Practice for Purposeful Business: The final report of the Future of the Corporation programme. Yr Academi Brydeinig.
[64] BURVILL, S. M., CUMMINGS, B. a BOWEN, R. From entrepreneurial ecosystems (EE) to purposeful ecosystems (PE) in Wales in a post covid era. Cynhadledd Flynyddol ISBE 2022, 2022 Efrog.
[65] STUBBS, W., DAHLMANN, F. a RAVEN, R. 2022. The Purpose Ecosystem and the United Nations Sustainable Development Goals: Interactions Among Private Sector Actors and Stakeholders. . *Journal of Business Ethics,* 180**,** 1097-1112.
[66] DRNOVŠEK, M., SLAVEC, A. ac ALEKSIĆ, D. 2024. "I want it all": exploring the relationship between entrepreneurs' satisfaction with work–life balance, well-being, flow and firm growth. *Review of Managerial Science,* 18**,** 799-826.
[67] MURACA, B. 2012. Towards a fair degrowth-society: Justice and the right to a 'good life' beyond growth. *Futures,* 44**,** 535-545.
[68] Ibid.
[69] DEMIREL, P. a DANISMAN, G. O. 2019. Eco-innovation and firm growth in the circular economy: Evidence from European small- and medium-sized enterprises. *Business Strategy and the Environment,* 28**,** 1608-1618.

wneir trwy gyfrwng arbedion effeithlonrwydd a thechnoleg werdd trwy gynyddu graddfeydd cynhyrchu a defnydd economaidd, a elwir yn adeffaith yr economi gylchol.[70]

Mae economïau a ysgogir gan dwf yn ddibynnol ar gynyddu'r defnydd a wneir o adnoddau cyfyngedig yn barhaus.[71] Mae troi cefn at y paradeim 'twf ymledol' yn golygu y dylai gwelliannau mewn technoleg a gwybodaeth ganolbwyntio ar wneud pethau'n well yn hytrach na gwneud pethau'n fwy cynhyrchiol ac yn fwy effeithlon.[72] Fodd bynnag, mae 'gwell' yn gallu golygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau, ac mae modd dehongli'r term 'twf' mewn gwahanol ffyrdd.

## 1.5 Y gogwydd tuag i fyny sy'n perthyn i dwf

Yn draddodiadol, mae twf economaidd yn cyfeirio at gynnydd yn y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yn yr economi dros amser,[73] a chaiff ei gynrychioli fel arfer gan duedd tuag i fyny ar graffiau – er enghraifft, lle dangosir cynnydd mewn Cynnyrch Domestig Gros (GDP) o un cyfnod i'r llall.[74] Gan fod yna gysylltiad agos rhwng twf economaidd ar y naill law a chynnydd mewn cyfoeth a safonau byw gwell ar y llaw arall, mae'n dal i fod yn amcan hollbwysig mewn polisïau economaidd mewn nifer o wledydd ledled y byd.[75] Mae'r cysylltiadau cadarnhaol sy'n perthyn i'r cysyniad 'twf fel cynnydd' yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r economi, gan gyrraedd ein bywydau beunyddiol, ac mae trosiadau fel 'tyfu mewn hyder'[76] yn hollbresennol mewn ieithoedd a phatrymau gramadegol, fel gofyn 'pa mor dal' yw rhywbeth yn hytrach na 'pha mor fyr'. Ond mae hyn yn cyferbynnu â rhai o'r cysyniadau a drafodir uchod sydd, er enghraifft, yn cydnabod y gwrthddywediad cynhenid o ran mynd ar drywydd twf diderfyn ar blaned ag adnoddau cyfyngedig.[77]

Mewn cyd-destun busnes, fel arfer caiff twf ei ystyried fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd mentrau;[78] gelwir hyn yn 'rheidrwydd twf'[79] mewn llenyddiaeth academaidd. Mae'r cysyniad hwn o dwf yn dilyn trywydd 'tuag i fyny' cryf, gan adeiladu ar y syniad bod busnesau'n dymuno cynyddu eu refeniw ac ymestyn eu cyrhaeddiad yn barhaus. Mae hyn yn cyd-fynd â chysyniad trosiadol sydd wedi hen ennill ei blwyf, sef bod

---

[70] LANG, M. a MARSDEN, T. 2023. Territorializing sustainability: decoupling and the foundational economy in Wales. *Territory, Politics, Governance,* 11**,** 1635-1648.
[71] Ibid.
[72] SCHNEIDER, F., KALLIS, G. a MARTINEZ-ALIER, J. 2010. Crisis or opportunity? Economic degrowth for social equity and ecological sustainability. Introduction to this special issue. *Journal of Cleaner Production,* 18**,** 511-518.
[73] CRAFTS, N. 2015. Economic growth: onwards and upwards?, *Oxford Review of Economic Policy*, 31, 217-241.
[74] DRAGOI, D. 2020. Economic growth versus economic development, *Atlantic Review of Economics (ARoEc)*, 4, 1-11.
[75] SHARIPOV, I. 2015. Contemporary Economic Growth Models and Theories: A Literature Review. *CES working papers* VII.3: 759–773.
[76] LAKOFF, G. & JOHNSON, M. 1980. *Metaphors we live by*. University of Chicago Press.
[77] EDWARDS, M.G. 2021. The growth paradox, sustainable development, and business strategy, *Business Strategy and the Environment*, 30, 3079–3094.
[78] MIROSHNYCHENKO, I., DE MASSIS, A., MILLER, D. a BARONTINI, R. 2021. Family Business Growth Around the World, *Entrepreneurship Theory and Practice*, 45, 682–708.
[79] BANERJEE, S. B., JERMIER, J. M., PEREDO, A. M., PEREY, R. a REICHEL, A. 2021. Theoretical perspectives on organizations and organizing in a post-growth era. *Organization,* 28, 337-357.

'mwy yn well',[80] ac mae'n rhan annatod o fywyd beunyddiol yn ogystal â syniadaeth academaidd.[81] O'r herwydd, yn hanesyddol mae strategaethau economaidd a strategaethau datblygu busnes ledled y byd wedi canolbwyntio ar drywydd twf 'tuag i fyny' fel ffordd o fesur llwyddiant.

Yn y Gymru wledig, yn hanesyddol mae buddsoddiadau'r llywodraeth mewn seilwaith diwydiannol a thrafnidiaeth wedi anelu at ddenu mewnfuddsoddiad a chreu cyfleoedd gwaith a fydd yn arwain at dwf.[82] Fodd bynnag, beirniadwyd polisïau o'r fath yn y gorffennol am arwain at gyflogau is oherwydd y camgymhariad rhwng sgiliau'r gweithwyr a'r swyddi a oedd ar gael,[83] a hefyd cawsant eu beirniadu am greu rhwygiadau diwylliannol.[84] Awgryma hyn nad yw trywydd tuag i fyny mewn dangosyddion economaidd yn esgor bob amser ar y canlyniadau y mae cymunedau'n dymuno eu cael mewn gwirionedd. Mae ein hastudiaeth yn anelu at fynd i'r afael â chanfyddiadau o dwf ymhlith cynrychiolwyr cymunedau, busnesau bach a llunwyr polisïau yn y Gymru wledig.

---

[80] LAKOFF, G. a JOHNSON, M. 1980. *Metaphors we live by*. Gwasg Prifysgol Chicago.

[81] BANERJEE, S. B., JERMIER, J. M., PEREDO, A. M., PEREY, R. a REICHEL, A. 2021. Theoretical perspectives on organizations and organizing in a post-growth era. *Organization,* 28, 337-357.

[82] MIDMORE, P. 2018. Rural development in Wales: looking backwards, looking forwards, *Welsh Economic Review*, 26, 21-28.

[83] Ibid.

[84] MORRIS, D. 1995. Language and Class Fractioning in a Peripheral Economy, *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 16, 373–387.

# 2. Dulliau

Defnyddiodd yr ymchwil hon ddull astudiaeth achos ansoddol trwy ddefnyddio strategaeth ymchwil weithredu safonol – gweler isod (Ffigur 1).




*Ffigur 1: Diagram Ymchwil Weithredu (Macintyre, 2000 t. 1).*

Pennwyd cyd-destun twf trwy gyfrwng grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ac yn nhref Llanidloes. Yn ystod y grwpiau ffocws hyn, anogwyd sgyrsiau'n ymwneud â safbwyntiau ynghylch twf, y pethau sy'n rhwystro twf, y cymorth sydd ei angen ar gyfer twf, ac ymwybyddiaeth o fodelau busnes amgen. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lunio cwestiynau cyfweliad ar gyfer busnesau, llunwyr polisïau a sefydliadau cymunedol er mwyn ystyried beth yw barn y rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn lleoliadau gwledig ynghylch twf, cymorth a datblygu busnes.

Yn Llanidloes, cafodd darpar gyfweleion eu recriwtio trwy gyfrwng arolwg ar-lein. Defnyddiwyd dull 'pelen eira', gyda'r cyfranogwyr yn helpu i recriwtio cyfranogwyr eraill o blith eu cysylltiadau, a hefyd chwiliwyd am fusnesau a sefydliadau ar wefannau fel Llanidloes.com.[85] Yna, anfonwyd e-byst at y busnesau a'r sefydliadau y daethpwyd o hyd iddynt yn gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad. Ni fu'r dull hwn yn arbennig o lwyddiannus, a chafodd y mwyafrif o'r cyfweleion eu recriwtio trwy ddefnyddio'r dull 'pelen eira'. Anfonwyd e-byst at lunwyr polisïau ar lefel y sir a chytunodd clerc y dref i anfon y cais am gyfweliad at gynghorwyr tref. Cynhaliwyd cyfweliadau Llanidloes yn y Saesneg, dros y ffôn neu dros Teams. Fe wnaethant bara rhwng 15 munud a 50 munud.

[85] I gyrchu'r wefan: https://www.llanidloes.com/ [cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].




Ffigur 1: Proses y dadansoddiad thematig (Braun a Clarke 2006).

Yn Llangefni, pennwyd hapsampl haenedig o fusnesau ar y stryd fawr. Roeddynt yn cynrychioli amrywiaeth o fusnesau gwasanaeth a busnesau manwerthu nad oeddynt yn siopau cadwyn e.e. cigyddion, siopau trin gwallt, caffis a gwerthwyr tai. Casglwyd y data yn bennaf ar ffurf cyfweliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd wyneb yn wyneb; fe wnaeth y cyfweliadau hyn bara rhwng 15 munud ac oddeutu awr. Cafodd y trafodaethau a gynhaliwyd cyn y cyfweliadau eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, ond cynhaliwyd y cyfweliadau a'r arolygon yn y Saesneg. Methodd pedwar busnes â llenwi'r arolwg gan eu bod yn rhy brysur yn delio â chwsmeriaid, hyd yn oed ar ôl ailymweld â nhw ddwywaith. Cynhaliwyd arolwg o drigolion lleol Llangefni ar y stryd fawr, sef hapsampl haenedig (er mwyn cael oedrannau amrywiol ac ati). Cafodd cynghorwyr tref a sir, yn ogystal ag ymatebwyr o asiantaethau adfywio, eu recriwtio ar gais ar gyfer cyfweliadau byr a hefyd trwy ddefnyddio dull 'pelen eira'. Cafwyd un ymateb ysgrifenedig yn y Gymraeg; cyfieithwyd yr ymateb hwnnw gan un o'r ymchwilwyr. Llwyddodd yr astudiaeth i gysylltu'n gynnar â'r Rheolwr Canol Tref rhan-amser a recriwtiwyd yn ddiweddar ac anfonwyd e-byst at staff perthnasol yn yr awdurdod lleol. Roedd astudiaeth o Ynys Môn wrthi'n cael ei chynnal yn ystod y prosiect, felly mae'n bosibl bod rhai o'r darpar gyfranogwyr wedi syrffedu ar gymryd rhan mewn ymchwil.

Dadansoddwyd data'r ddwy astudiaeth achos trwy ddefnyddio dadansoddiad thematig chwe cham – gweler Ffigur 2.[86] Yn ychwanegol at hyn, archwiliwyd yr iaith a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r cysyniadau twf trwy ddilyn egwyddorion ac ystyriaethau damcaniaethol

[86] BRAUN, V. a CLARKE, V. 2006. Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology,* 3, 77-101.

Dadansoddi Disgwrs Gwybyddol.[87] Mae'r dull hwn yn cymell rhywun i ganolbwyntio ar eiriau ac ymadroddion sy'n tynnu sylw'n benodol at feddylfryd neu ffordd o feddwl mewn perthynas â'r cyd-destun o dan sylw. Roedd gan yr astudiaeth bresennol ddiddordeb arbennig mewn trosiadau a ffyrdd perthynol o gynrychioli cysyniadau twf mewn perthynas â syniadau traddodiadol a gysylltir yn fynych â thwf economaidd (megis ehangu a thrywydd 'tuag i fyny'), yn enwedig yng nghyd-destun polisïau a thrafodaeth wleidyddol. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, cafodd y data ei drin fel cyfangorff (yn annibynnol ar gwestiynau penodol a ofynnwyd i'r cyfranogwyr), gan ategu'r dadansoddiad thematig y sonnir amdano uchod. Crynhowyd data'r cyfweliadau mewn taenlen Excel ac fe'i dadansoddwyd yn systematig er mwyn canfod geiriau ac ymadroddion a ddefnyddiwyd yn fynych i ddisgrifio gwahanol gysyniadau twf. Daeth y dadansoddiad hwn o hyd i drosiad cyffredinol ar gyfer twf, sef *symud ymlaen dan gyfyngiad grymoedd croes*. Archwiliwyd mwy ar eitemau geirfaol a oedd yn gysylltiedig â'r grymoedd croes hyn, gan roi sylw arbennig i'w perthnasedd i themâu unigol a bennwyd yn y dadansoddiad thematig.

## 2.1 Yr astudiaethau achos

Mae trefi marchnad yn arbennig o ddiddorol, oherwydd yn aml rhagdybir eu bod yn creu ac yn ysgogi twf swyddi ar gyfer eu cyffiniau gwledig, er gwaethaf tystiolaeth aneglur.[88] Gellid ystyried bod ganddynt swyddogaeth arweiniol o ran datblygu economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig gan eu bod yn cael mwy o gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chronfeydd Datblygu Gwledig Ewropeaidd o gymharu â mathau eraill o leoedd mewn perthynas â'u maint.[89] Hefyd, mae trefi marchnad wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer mentrau adfywio.[90]

Lleolir tref Llanidloes ym Mhowys, a hi yw'r dref gyntaf ar Afon Hafren. Adeg cyfrifiad 2021, roedd poblogaeth y dref yn 2197.[91] Mae gan Lanidloes ffordd osgoi oddi ar yr A470. Lleolir yr orsaf reilffordd agosaf yng Nghaersŵs, 8.1 milltir (13.8 cilometr) i ffwrdd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o siopau wedi cau yn Llanidloes; ac er bod detholiad da o siopau yn y dref, mae adroddiad gan gyngor y dref yn awgrymu bod amseroedd agor afreolaidd yn peri i ymwelwyr a thrigolion lleol beidio â siopa yno.[92]

Mae cyfran fawr o bobl hŷn yn byw yn Llanidloes a'r cyffiniau, gyda 28.7% o'r boblogaeth yn 65 oed ac yn hŷn (Cyfrifiad, 2021). Er gwaethaf hyn, mae 58.5% o'r boblogaeth sydd

---

[87] TENBRINK, T. 2020. *Cognitive Discourse Analysis: An Introduction*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
[88] Arsyllfa Wledig Cymru 2007. Small and Market Towns in Rural Wales and their Hinterlands. *Research Report 13.* Aberystwyth: Arsyllfa Wledig Cymru.
[89] Ibid.
[90] Ibid.
[91] BRINKHOFF, T. 2023b. *Llanidloes* [Ar-lein]. Poblogaeth y ddinas: Thomas Brinkhoff. Ar gael ar: https://www.citypopulation.de/en/uk/wales/powys/W45000225__llanidloes/ [Cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].
[92] JONES, J. 2024. Ymchwil Gymunedol Llanidloes: Adroddiad i Gyngor y Dref, y Cyngor Sir a'r Siambr Fasnach.

dros 16 oed yn economaidd weithgar, tra mae 30.5% wedi ymddeol (Cyfrifiad, 2021).[93] Disgwylir i economi Canolbarth Cymru grebachu 3.5% rhwng 2018-2040, tra disgwylir i economi'r DU dyfu 7.4%.[94] Yn rhanbarth Canolbarth Cymru, mae mwy nag 89% o'r busnesau yn ficrofusnesau sydd â llai na 10 o weithwyr.[95]

Tref farchnad Llangefni yw canolfan weinyddol Ynys Môn. Fe'i lleolir fwy neu lai yng nghanol yr ynys. Mae'n ganolfan hollbwysig ar gyfer addysg, masnach a llywodraethu lleol. Ar adeg y cyfrifiad diwethaf, roedd poblogaeth y dref oddeutu 5499,[96] a nododd mwy na 75% o'r trigolion eu bod yn siaradwyr Cymraeg.[97]

Mae Ystad Ddiwydiannol Llangefni yn hanfodol i'r economi leol, gan gynnig cyfleoedd gwaith mewn sectorau fel cynhyrchu bwyd a pheirianneg. Ond mae'r dref wedi wynebu heriau economaidd, yn cynnwys cau ffatri bwyd rhew 2 Sisters yn 2023, a arweiniodd at golli nifer fawr o swyddi.[98] Er nad oes gorsaf drefnau yn Llangefni bellach, mae'r dref yn elwa ar gysylltiadau ffyrdd da, oherwydd mae'n agos at yr A55 a'r A5, sy'n cynnig cysylltiadau trafnidiaeth â'r tir mawr ac ar draws Ynys Môn.

Yn Llangefni a'r cyffiniau, mae 21.7% o'r boblogaeth yn 65 oed ac yn hŷn, ond mae 58.7% o'r rhai sydd dros 16 oed yn economaidd weithgar ac mae 25.3% wedi ymddeol.[99]

## 2.2 Y Cyfranogwyr

Cafwyd cyfanswm o 26 o gyfranogwyr.

Roedd y rhain yn cynnwys 17 o gyfranogwr yn Llanidloes. Cynhaliwyd 14 o gyfweliadau a oedd yn cynnwys 6 aelod o'r cyhoedd, 3 busnes, 2 luniwr polisïau ar lefel leol a 3 lluniwr polisïau ar lefel Powys. Llenwodd 2 fusnes ac un aelod o'r gymuned y cwestiynau'n ysgrifenedig. Yn ychwanegol, roedd y grwpiau ffocws cychwynnol yn cynnwys 22 o bobl, a chafodd 3 ohonynt eu cyfweld yn ddiweddarach.

Cafwyd 9 cyfranogwr yn Llangefni. Cynhaliwyd 5 cyfweliad, 2 gyda busnesau, 1 gyda lluniwr polisïau a 2 gydag aelodau o'r gymuned. Llenwodd 1 busnes, 1 aelod o'r gymuned, 1 lluniwr polisïau ac un grŵp cymunedol y cwestiynau'n ysgrifenedig.

---

[93] CYFRIFIAD 2021. *Llanidloes, Blaen Hafren & Llandinam Economic Activity Status* [Ar-lein]. Mapiau Cyfrifiad: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth/work/economic-activity-status/economic-activity-status-10a/economically-inactive-retired?geoLock=msoa&msoa=W02000106 [Cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].

[94] TYFU CANOLBARTH CYMRU 2020. A Vision for Growing Mid Wales: Strategic Economic Plan & Growth Deal Roadmap. Tyfu Canolbarth Cymru Growing Mid Wales.

[95] PARTNERIAETH TYFU CANOLBARTH CYMRU 2016. Framework for Action: To grow productivity, innovation and jobs across Mid Wales. Aberaeron: Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

[96] BRINKHOFF, T. 2023a. *Llangefni* [Ar-lein]. Poblogaeth y ddinas: Thomas Brinkhoff. Ar gael ar: https://www.citypopulation.de/en/uk/wales/admin/isle_of_anglesey/W04000024__llangefni/ [Cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].

[97] CYFRIFIAD 2021 2022. Sgiliau iaith Gymraeg (deall). *Yn:* Y SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL (gol.).

[98] HERD, G. 2023. 2 Sisters: 700 jobs go as Anglesey chicken plant shuts. *BBC News*.

[99] https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth/work/economic-activity-status/economic-activity-status-3a/economically-active/?msoa=W02000006&geoLock=msoa

Roedd oedran y cyfranogwyr yn amrywio, gyda rhywfaint mwy o gyfweleion yn perthyn i'r grŵp oedran 60-69 o gymharu ag unrhyw grŵp arall, gan adlewyrchu'r ddemograffeg wledig. Saesneg a siaradwyd gan y mwyafrif o gyfranogwyr Llanidloes, ond roedd rhai'n ddwyieithog; ac yn Llangefni, cafwyd dau siaradwr Cymraeg iaith gyntaf a rhai pobl ddwyieithog. Roedd cyfnod preswylio'r cyfranogwyr yn y trefi yn amrywio, gyda rhai wedi treulio llai na phum mlynedd yno ac eraill wedi treulio'u hoes gyfan yno.

Rhestrir manylion y cyfranogwyr o blith y gymuned a'r llunwyr polisïau yn nhabl 2. Rhestrir manylion y busnesau yn nhabl 3. Roedd y busnesau'n cynnwys sectorau fel manwerthu, lletygarwch, twristiaeth a gwasanaethau cyfreithiol. Roedd busnesau a oedd yn perthyn i sector yr economi sylfaenol neu i wasanaethau lefel uchel fwy neu lai yn absennol o'r sampl, ond cafwyd gwell cynrychiolaeth o fusnesau teuluol a busnesau a oedd yn masnachu ar y stryd fawr; mae hyn yn effeithio ar y canfyddiadau a'r safbwyntiau y tynnir sylw atynt.

| **Cod y cyfranogwyr** | **Lle** | **Categori** | **Ystod oedran** | **Rhywedd** | **Hyd preswylio (i'r 5 mlynedd agosaf)** | **Iaith** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LSI1 | Llanidloes | Preswylydd | 60-69 | Benyw | 10 mlynedd | Saesneg |
| LSI2 | Llanidloes | Preswylydd | 30-39 | Gwryw | 10 mlynedd | Cymraeg / Saesneg |
| LGI4 | Llangefni | Lluniwr polisïau | 50-59 | Benyw | Drwy gydol ei hoes | Cymraeg |
| LGI3 | Llangefni | Preswylydd | 50-59 | Benyw | 35 mlynedd | Saesneg |
| LSI5 | Llanidloes | Preswylydd | 40-49 | Benyw | 10 mlynedd | Saesneg |
| LSI6 | Llanidloes | Lluniwr polisïau, ar lefel leol, busnes bach | 30-39 | Gwryw | Y rhan fwyaf o'i oes | Saesneg (rhywfaint o Gymraeg) |
| LGI6 | Llangefni | Preswylydd | 40-49 | Benyw | Drwy gydol ei hoes | Cymraeg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LSI7 | Llanidloes | Preswylydd | 50-59 | Benyw | 15 mlynedd | Saesneg |
| LSI8 | Llanidloes | Preswylydd, aelod o'r gymdeithas, busnes bach | 70-79 | Gwryw | 10 mlynedd | Saesneg |
| LSI10 | Llanidloes | Lluniwr polisïau, ar lefel leol | 60-69 | Gwryw | 20 mlynedd | Saesneg |
| LSI11 | Llanidloes | Menter gymunedol | 60-69 | Benyw | 35 mlynedd | Saesneg |
| LSI12 | Llanidloes | Lluniwr polisïau, ar lefel sirol | 70-79 | Gwryw | Dros 30 mlynedd | Saesneg |
| LSI13 | Llanidloes | Lluniwr polisïau, ar lefel sirol | 60-69 | Gwryw | Y rhan fwyaf o'i oes | Saesneg |
| LSI14 | Llanidloes | Lluniwr polisïau, ar lefel sirol | 40-49 | Gwryw | Nis datgelwyd | Saesneg (deall Cymraeg) |
| LGT2 | Llangefni | Preswylydd | 18-29 | Gwryw | Drwy gydol ei oes | Cymraeg / Saesneg |
| LSI3 | Llanidloes | Preswylydd | 60-69 | Benyw | 5 mlynedd | Saesneg |
| LGT3 | Llangefni | Menter gymunedol | Nis datgelwyd | Nis datgelwyd | Nis datgelwyd | Cymraeg |
| LGT4 | Llangefni | Lluniwr polisïau | Nis datgelwyd | Nis datgelwyd | Nis datgelwyd | Cymraeg |

*Tabl 2: Tabl yn dangos nodweddion y llunwyr polisïau, y preswylwyr a'r mentrau cymdeithasol a gymerodd ran yn yr astudiaeth.*

| Cod y cyfranogwyr | Lle | Cyfnod masnachu i'r 5 mlynedd agosaf | Trosiant | Nifer y gweithwyr | Sector |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LGI1 | Llangefni | 70 mlynedd | Nis datgelwyd | 3 | Manwerthu |
| LSI3 | Llanidloes | 100+ mlynedd | ~£1m | 20 | Gwasanaethau cyfreithiol |
| LSI4 | Llanidloes | 10 mlynedd | £24K | 1 | Twristiaeth / llety gwyliau |
| LGI5 | Llangefni | Llai na 5 mlynedd | £500K | 25 (2 weithiwr amser llawn) | Lletygarwch ac arlwyo |
| LSI9 | Llanidloes | 5 mlynedd | £30 – 40K | 1 unig fasnachwr | Twristiaeth / llety gwyliau |
| LST1 | Llanidloes | 20 mlynedd | Nis datgelwyd | 1 + perchennog | Argraffu |
| LGT1 | Llangefni | 15 mlynedd | Nis datgelwyd | 1 | Manwerthu |
| LST2 | Llanidloes | 5 mlynedd | £48K | 2 unig fasnachwr | Lletygarwch |

Tabl 3: Mae'r tabl yn dangos nodweddion y busnesau a gymerodd ran yn yr astudiaeth.

# 3. Dadansoddiad

Mae Tabl 4 yn nodi mathau o dwf a bennwyd yn yr astudiaeth; fe'u nodir ar ffurf themâu penodol. Nid y cyfranogwyr isod oedd yr unig rai a fynegodd y syniadau hyn ynghylch twf, ond nhw a gyflwynodd y mwyafrif o'r datganiadau mewn perthynas â'r categori.

Mynegodd nifer o'r cyfranogwyr amryfal syniadau ynglŷn â thwf. Yn bwysig, prin iawn oedd y cyfranogwyr a seiliai eu bywydau beunyddiol neu eu meddyliau ar gysyniad twf. Hefyd, ac eithrio llunwyr polisïau, ymddengys mai nifer fechan o'r cyfranogwyr a oedd wedi treulio llawer o amser yn meddwl am y cysyniad cyn y cyfweliad. Y themâu mwyaf poblogaidd oedd twf fel ffordd o feithrin cymuned, twf trwy gyfrwng cyfleoedd a thwf sylfaenol. Cyfeirir at y cyfranogwyr trwy ddefnyddio codau arbennig, sef LS ar gyfer Llanidloes neu LG ar gyfer Llangefni, I ar gyfer cyfweliad neu T ar gyfer ymateb trwy neges destun, a rhif adnabod.[100]

| Math o dwf | Crynodeb byr |
|---|---|
| **Twf fel ffordd o feithrin cymuned**<br><br>LSI1, LSI4, LSI6, LSI7, LSI8, LSI9, LSI10, LSI11, LST3, LGI4, LGI5, LGI6 | Caiff twf ei weld fel ymdrech gymunedol y mae pobl yn cymryd rhan ynddi er mwyn gwella'u cymuned. Mae busnesau lleol llewyrchus yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn. |
| **Twf o'r gwaelod i fyny?**<br><br>LSI1, LSI7, LSI11, LGT3 | Caiff twf ei weld fel rhywbeth y mae angen iddo ddigwydd mewn rhyw le ar ei delerau ei hun, ar sail gwerthoedd sydd eisoes ar waith. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pwy a fydd yn diffinio lle a diwylliant. |
| **Twf fel ffordd o barhau / goroesi**<br><br>LSI4, LSI6, LSI8 | Caiff twf ei weld fel ffordd o allu parhau â busnes, cynnal y gweithrediadau cyfredol a mynd ati'n barhaus i wneud bywoliaeth o fusnes gwledig. |
| **Twf sylfaenol**<br><br>LSI7, LSI8, LSI10, LSI12, LSI13, LSI14, LGI4 | Gellir esgor ar dwf trwy gyfrwng seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus digonol, a gellir creu twf trwy fuddsoddi yn yr elfennau hyn. |

[100] e.e. LSI1 = Cyfweliad 1 Llanidloes

| | |
|---|---|
| **Twf trwy gyfrwng cyfleoedd**<br><br>LSI2, LSI3, LSI9, LSI10, LSI11, LSI12, LSI13, LGI4 | Gellir creu twf trwy gyfrwng cyfleoedd a fydd yn galluogi pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig neu symud i ardaloedd gweledig, a chael cyfleoedd swyddi a hyfforddiant priodol. |
| **Twf cynaliadwy**<br><br>LSI14, LSI12, LSI13 | Rhaid sicrhau bod rhagolygon hirdymor yn perthyn i dwf, o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a sicrwydd cymdeithasol ac ariannol. |
| **Twf traddodiadol**<br><br>LSI12, LSI3, LSI14 | Caiff twf ei weld fel cynhyrchiant, gwerth ychwanegol gros a mewnfuddsoddi. |

Tabl 4: Mae'r golofn ar y chwith yn dangos y mathau o dwf a bennwyd yn yr astudiaeth, ac fe'u disgrifir yn y golofn ar y dde. Isod, mae gan bob dull twf restr o gyfranogwyr, sef y rhai a siaradodd fwyaf am y themâu hyn. Efallai fod cyfranogwyr eraill wedi trafod yr un themâu, ond nid i'r un graddau, a soniodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr am amryfal themâu a dulliau.

Llwyddodd ein dadansoddiad disgwrs o ddata'r cyfweliad i ddatgelu trosiad sylfaenol hollbresennol, sef symud ymlaen, gan gyferbynnu â'r trywydd 'tuag i fyny' trosiadol a gysylltir â datblygu economaidd.[101]

Er bod pobl yn cytuno'n gyffredinol bod twf yn rhywbeth dymunol i fusnesau ac i'r ardal leol, roedd eu ffordd o drafod twf yn adlewyrchu'r ffaith na chaiff twf ei ystyried yn bennaf fel ehangu elw neu gwmpas; yn hytrach, caiff ei weld fel yr angen i wella'n barhaus er mwyn o osgoi 'cymryd cam yn ôl' (LSI9, perchennog busnes).

Yn hytrach na gobeithio cael elw, soniodd y cyfranogwyr am geisio cefnogi asedau a gwerthoedd lleol, a dal ati â'r busnes, hyd yn oed mewn ffordd fach, gan wella arferion pan fo angen, ond yn bennaf er mwyn parhau i fod â rôl weithredol yn y dref neu'r busnes. Mae'r cysyniad trosiadol sylfaenol yn debycach i 'symud ymlaen yn erbyn llif dirywiad' (grymoedd croes), yn hytrach na 'symud tuag i fyny' er mwyn cael cyfoeth. Llwyddodd LGT1 (perchennog busnes) i fynegi'r syniadau hyn yn gryno, fel a ganlyn:

***C:*** *Sut mae eich busnes wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf neu ers iddo gychwyn?*

***A:*** *Mae fy musnes wedi mynd o nerth i nerth.*

*(…)*

***C****: Ydych chi'n bwriadu tyfu eich busnes?*

***A****: Rydw i'n fodlon ar bethau fel ag y maen nhw.*

---

[101] DRAGOI, D. 2020. Economic growth versus economic development, *Atlantic Review of Economics (ARoEc)*, 4, 1-11.

***C:** Beth yw'r prif heriau o ran 'twf' ar gyfer eich busnes, yn eich tyb chi?*

***A**: Sicrhau y bydd y cwsmeriaid yn dal i gerdded trwy'r drws.*

Yma, yn amlwg nid yw mynd 'o nerth i nerth' yn golygu sicrhau mwy o elw – gwrthodir hynny'n llwyr trwy ddweud 'rydw i'n fodlon ar bethau fel ag y maen nhw'. Yn hytrach, caiff twf ei gysylltu â 'sicrhau y bydd y cwsmeriaid yn dal i gerdded trwy'r drws'.

Mae'r trosiad yn dangos rhyngweithio dynamig rhwng dau rym cyferbyniol. Mae un grym yn 'gyrru ymlaen' ac mae'r llall yn 'gwthio'n ôl', gan greu gwrthiant. Yn aml, caiff y grym cyntaf ei gysylltu â dal ati, gan wrthsefyll yr angen i gyfaddawdu ar safonau, fel y nodir gan LST2 (perchennog busnes).

*'Mae trigolion yr ardal yn dal i ddod o hyd inni, hyd yn oed ar ôl 5 mlynedd. Parhau â safonau uchel o ran ansawdd a gwasanaethau. Felly 'parhau' neu 'gynnal'.*

Gwelir bod yna gysylltiad cryf rhwng agweddau perchnogion busnes a'r amodau economaidd sydd ohoni, ac o'r herwydd mae'n debygol y bydd y dymuniad i dyfu yn cael ei ffrwyno yn ystod cyfnodau yr ystyrir eu bod yn gyfnodau anodd.[102] Ynghyd â blaenoriaethau ffordd o fyw neu flaenoriaethau nad ydynt yn ymwneud â busnes, gall busnesau roi blaenoriaeth i sefydlogrwydd uwchlaw twf busnes, yn enwedig busnesau bach.[103]

Mewn gwrthgyferbyniad, caiff grym dirywiad ei gysylltu'n aml â newid; newidiadau mewn patrymau siopa neu newidiadau rheoleiddio, er enghraifft, sy'n gwthio yn erbyn y syniad o symud ymlaen. Hefyd, crybwyllir y syniad sydd ynghlwm wrth newid wrth gyfeirio at sut 'yr arferai' pethau fod (LGI3). Yn aml, caiff newid yn y cyd-destun hwn ei gysylltu â cholled, megis colli gwasanaethau ('rydym wedi colli'r siopau', LGI2), colli ieuenctid ('colli ein pobl ifanc', LGI1) neu golli iaith ('mae'r iaith yn gadael', LGI4). Mae'r tensiwn hwn rhwng cynnal/parhau ar y naill law a newid ar y llaw arall yn creu dynameg gymhleth lle caiff y dymuniad i barhau ei herio'n barhaus.

Ymhellach, mae'r data'n cynnwys termau croes sy'n gysylltiedig â'r grymoedd cyferbyniol hyn. Er enghraifft, trafodwyd busnesau a phobl ifanc mewn perthynas ag 'aros' neu 'adael', trafodwyd siopau a busnesau mewn perthynas â bod 'ar agor' neu 'ar gau', a thrafodwyd adeiladau'r stryd fawr mewn perthynas â bod yn 'llawn' neu'n 'wag'. Mae'r deuoliaethau hyn yn atgyfnerthu mwy fyth ar ddelweddaeth y grymoedd croes, yr angen parhaus i frwydro yn erbyn y perygl o wireddu gwrthwyneb ein nodau.

Mae'r trosiad sylfaenol hwn – sef symud ymlaen – yn amlwg i raddau mwy neu lai ar draws y 7 thema a bennwyd yn y dadansoddiad thematig. Bydd yr adrannau a ganlyn yn datblygu ac yn gwerthuso pob dull mewn perthynas â'r themâu a bennwyd yn y dadansoddiad

[102] Gray, C. (2002) 'Entrepreneurship, resistance to change and growth in small firms', *Journal of Small Business and Enterprise Development*, 9(1), tt. 61–72. Ar gael ar: https://doi.org/10.1108/14626000210419491.

[103] Schumpeter, 1934, dyfynnir gan Gray: Ibid.

thematig, a phan fo'n berthnasol tynnir sylw at enghreifftiau o'r trosiad sylfaenol (sef symud ymlaen yn erbyn grymoedd croes).

## 3.1 Twf fel ffordd o feithrin cymuned

| Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema | Llunwyr polisïau | Busnesau | Aelodau o'r gymuned |
|---|---|---|---|
| 23/25 | 6/6 | 7/8 | 10/12 |
| 92% | 100% | 87.5% | 83.3% |

Tabl 5: Manylion am faint o gyfranogwyr o bob categori a siaradodd am dwf fel ffordd o feithrin cymuned.

Y thema amlycaf, a drafodwyd gan bron pob un o'r cyfranogwyr, oedd yr economi leol. O'r safbwynt hwn, mae twf yn ymdrech gymunedol sy'n arwain at feithrin cymuned.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r trosiad 'symud ymlaen' yn cyfleu ymdeimlad o ymdrechu ar y cyd. Mynegwyd hyn trwy ddefnyddio ymadroddion fel *'mae yna lawer o bobl yn ceisio adfywio'* (LGI2), *'y prif beth yw parhau i weithio gyda'n gilydd'* (LGI4), *'rydym yn ceisio ymdrechu ar y cyd'*. (LlI8). Awgryma hyn fod angen ymdrech ymwybodol i symud ymlaen, ac y bydd modd cyflawni hyn yn well trwy gydweithio. Mae creu busnesau, siopau a mannau cyhoeddus yn arwain at sefydlu, datblygu a thyfu canolfannau ar gyfer y gymuned. Gellir cyflawni twf fel ffordd o feithrin cymuned trwy weld cyfranogwr cymunedol yn cydweithredu, gan ddewis siopa'n lleol a chan farchnata'r trefi ymhlith twristiaid a darpar fewnfudwyr.

Mae gan y math hwn o dwf gysylltiad â'r dull 'datblygu o dan arweiniad y gymuned' a'r dull 'twf o'r gwaelod i fyny'. Efallai y bydd amrywiaeth o nodau yn perthyn i'r dull olaf, ond enillion cymunedol yw prif bwrpas twf sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Trwy weithio gyda'i gilydd fel cymuned, roedd pobl yn teimlo bod cynnydd ar droed. Er enghraifft, ysgrifennwyd y canlynol gan Llani T3 (aelod o'r gymuned) ynglŷn â thwf neu ddatblygu yn y gymuned:

*"Gweithredu ar y cyd a chydweithio yn y gymuned – ee Llani Live"*

Ystyriwyd y gellid cyflawni twf trwy weld y gymuned yn gweithio gyda'i gilydd. Roedd grŵp cymunedol yn Llanidloes yn gobeithio creu cyfleoedd i bobl roi cynnig ar syniadau ar gyfer busnesau bach. Yn ôl LSI11:

*"Mae'n braf gallu dod â nhw at ei gilydd, a thrwy gael marchnad neu rywle lle gall ffermwyr werthu'n uniongyrchol, bydd modd iddyn nhw gyfarfod â rhagor o bobl, cwsmeriaid ac ati, y bobl sy'n prynu'r nwyddau."*

Ystyriwyd bod creu economi â gwreiddiau lleol yn meddu ar y potensial i ddwyn ynghyd wahanol bobl o'r dref, gan greu a chryfhau cydlyniant cymunedol ac ymdeimlad o berthyn. Er mai'r nod yn rhannol oedd darparu ychwaneg o gyfleoedd dysgu a ffyrdd i bobl adeiladu busnesau yn yr ardal, tynnwyd sylw at y potensial o ran meithrin cymuned a chynnal cyfarfodydd rhwng gwahanol grwpiau cymunedol.

Yn Llangefni, ceid rhwydwaith busnes amlwg a oedd yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar bolisïau'n ymwneud â deddfwriaeth a rheoliadau. Yn ôl LGI1 (busnes):

*"Rydw i wedi ymuno â grŵp busnes lleol. Rydym yn cyfarfod unwaith y mis er mwyn ceisio gwella pethau i bob busnes, nid manwerthu o angenrheidrwydd, ond hamdden, pobl yn y diwydiant adeiladu, problemau sydd gennym â'r awdurdod lleol ynglŷn â threthi, materion cynllunio, rhwystrau cynllunio. Ac felly, rydym wedi ymuno â'r grŵp ac yn ddiweddar daeth ein Haelod Seneddol lleol i un o'n cyfarfodydd. Cafodd ei wahodd i'r cyfarfod, yn ogystal â'r sawl sy'n ein cynrychioli yn y Senedd yng Nghaerdydd."*

Cynigodd y rhwydwaith hwn gyfle i gydweithio tuag at greu economi leol fwy bywiog, a meithrin cymuned trwy gydweithredu.

Caiff ysbryd cymunedol ei annog trwy greu canolfannau cymunedol a thrwy wirfoddoli. Mae busnesau (fel siop bapur newydd yn Llanidloes) a gwasanaethau (fel Llyfrgell Llangefni) yn cynnig mannau cyfarfod i aelodau'r gymuned gogyfer meithrin cymuned ofalgar.

Ystyriwyd bod dod â phobl ynghyd yn esgor ar werth ac yn creu ymdeimlad o berthyn, ond ymddengys fod hyn yn cael ei wneud yn fwyaf effeithiol mewn perthynas â chynnydd. Er enghraifft, nod prosiect yr 'Hanging Gardens' oedd gwella cydweithredu o fewn y gymuned, yn ogystal â chreu dyfodol cadarn i Lanidloes ac adfywio'r dref. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r gymuned yn feirniadol o'r prosiect: roeddynt o'r farn bod mentrau a ariennir gan grantiau yn gwerthu'n rhatach na busnesau lleol, a bod mentrau o'r fath yn tanseilio'r farchnad siarter. Gwelwyd bod yr aelodau hyn o'r gymuned, ynghyd â phrosiect yr 'Hanging Gardens', wedi ymateb i ymdeimlad o ddirywiad a dad-dwf yn y dref, ond nodwyd gwahanol achosion ac atebion.

Gwelwyd bod ymron pob un o'r cyfranogwyr drwy'r sampl wedi trafod rhyw agwedd ar y thema mewn perthynas â chreu economi leol. Roedd y mater hwn yn bwysig i fentrau cymunedol, i aelodau o'r gymuned, i fusnesau ac i lunwyr polisïau; trafodwyd ef i raddau llai gan lunwyr polisïau ar lefel sirol.

## 3.2 Twf o'r gwaelod i fyny?

| **Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema** | **Llunwyr polisïau** | **Busnesau** | **Aelodau o'r gymuned** |
|---|---|---|---|
| 16/25 | 5/6 | 3/8 | 9/12 |
| 64% | 83% | 37.5% | 75% |

Tabl 6: Manylion am faint o gyfranogwyr o bob categori a ddywedodd fod angen adeiladu twf o'r gwaelod i fyny.

Ystyriwyd bod twf o'r gwaelod i fyny yn rhywbeth a ddylai ddod o gyfeiriad y gymuned a'i fod ynghlwm wrth oroesiad y lle, yn cynnwys ei ddiwylliant, ei bobl a'i draddodiadau. Mae ei ystyr yn ddadleuol ac yn wleidyddol, a mynegwyd gwahanol safbwyntiau ynglŷn â beth yw'r diwylliant a phwy a ddylai elwa ar dwf.

Roedd y thema hon yn arbennig o amlwg yn Llanidloes, ond cyfeiriodd cyfranogwyr Llangefni ati hefyd. Roedd ymhlith y themâu a drafodwyd leiaf gan lunwyr polisïau a busnesau, ond roedd yn eithaf pwysig i aelodau arbennig o'r gymuned.

Mae safbwyntiau neo-fewndarddol yn dangos pa mor bwysig yw cydnabod gwybodaeth ac adnoddau lleol.[104] I LSI12 (lluniwr polisïau), dylai Powys ddefnyddio'i nodweddion mewn modd manteisiol wrth ddenu mewnfudwyr a buddsoddiad:

*"Rydym eisiau dangos a gallu datblygu yn ein ffordd ein hunain... Yn y math o amgylchedd rydym ynddo. (...) rhaid inni wneud y defnydd gorau o'r arlwy hwnnw. (...) dyna rydw i'n ei olygu trwy ddweud bod angen inni ddysgu bod yn wahanol yn ogystal â dysgu bod yr un fath."*

Mae dysgu bod yn wahanol yn ffordd o fynd ar drywydd twf ar sail disgwyliadau a thraddodiadau lleol ac amodau cyfredol yn hytrach na rhywbeth arall. Ond nid yw ei ystyr yn syml o angenrheidrwydd.

Soniodd nifer o gyfranogwyr Llanidloes am faterion yn ymwneud â chyflwr presennol y dref, ond priodolwyd y materion hynny i wahanol achosion. Er enghraifft, aeth T3 (aelod o'r gymuned) ati i ddisgrifio Llanidloes fel a ganlyn:

*"Poblogaeth sy'n heneiddio, diffyg gofal cymdeithasol, methu denu rhagor o ymwelwyr, mae rhai preswylwyr hirdymor yn edrych yn ôl ar orffennol euraid delfrydol"*

Yna, mae'r agwedd hiraethus am y gorffennol yn llesteirio newidiadau a fyddai, yn nhyb rhai o'r preswylwyr, yn esgor ar dwf, gan gyflwyno achos 'grymoedd croes' cryf sy'n llesteirio'r 'symud ymlaen' a gysylltir â thwf. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pwy a ddylai elwa ar dwf a'r hyn y ceisir ei gyflawni. Mewn gwrthgyferbyniad, dyma a ddywedodd LSI7 (aelod o gymuned Llanidloes):

*"Rydw i'n credu bod pob un ohonom braidd yn ... bryderus, braidd yn ofnus o newid, oherwydd mae pobl newydd yn dod i'r dref heb ddod ag enaid newydd o angenrheidrwydd. Mae hyn yn gwanhau'r pethau arbennig sydd gennym. Mae pobl yn dod yma gan eu bod wrth eu bodd â'r lle, maen nhw'n dod draw ac yn dweud bod y lle'n wych, yn anhygoel, maen nhw'n dod yma ac yn dymuno newid popeth. Ond trwy newid popeth, fydd y lle ddim yr un fath â'r lle y syrthion nhw mewn cariad ag ef – dydyn nhw ddim yn sylweddoli hynny. Felly, mae pob un ohonom braidd yn bryderus ynglŷn â hynny."*

O'r safbwynt hwn, mae'r hyn sy'n arbennig ynglŷn â'r dref wedi'i ymwreiddio yn y boblogaeth hirdymor a'i diwylliant, ei thraddodiadau, ei harferion a'i chyflymder bywyd, a dylai hyn wedyn fod yn sail ar gyfer symud ymlaen, ar gyfer twf. Mae gweithio gyda phob

[104] BOSWORTH, G., ANNIBAL, I., CARROLL, T., PRICE, L., SELLICK, J. a SHEPHERD, J. 2016. Empowering Local Action through Neo-Endogenous Development; The Case of LEADER in England. *Sociologia Ruralis,* 56**,** 427-449.

rhan o'r gymuned yn flaenoriaeth i'r rhai sy'n dymuno esgor ar newid, ond yn aml mae'n anodd ymgysylltu â'r rhai sy'n gyfforddus â'r sefyllfa bresennol.[105] Yn ôl LSI1 (aelod o'r gymuned).

*"Rhaid ichi ennyn cefnogaeth y bobl leol, ac mae hynny'n wirioneddol anodd oherwydd fel arfer nid y bobl leol sy'n gweithio tuag at hyn. Yn achos ein siambr fanach, prin ein bod yn cael digon o bobl i gynnal cyfarfodydd. Dw i ddim yn meddwl bod neb yn eu mynychu'n rheolaidd, ar wahân i un person efallai. Mae pawb arall yn 'bobl ddŵad', ond caiff nifer o'r siopau eu rhedeg gan bobl leol, maen nhw'n dymuno gweld newid ond dydyn nhw ddim eisiau gwneud unrhyw newidiadau eu hunain."*

I rai, roedd gweithredu yn y gymuned yn bwysig, oherwydd nid oedd unrhyw grŵp neu sefydliad arall ar gael i achub y dref. Er enghraifft, dyma a ddywedodd LGT3 (grŵp cymunedol):

*"Mae dyfodol masnachol Llangefni yn ddibynnol i ryw raddau ar ddymuniad y gymdeithas i ddod â bywyd newydd i'r dref. All y sector preifat ddim dod i'r adwy bob amser a phrynu, rheoli a rhentu adeiladau gan fasnachwyr lleol a phobl fusnes. Byddwn angen gweledigaeth hirdymor, lle bydd y Llywodraeth, y Cyngor Sir, y Dref a'r gymuned ehangach yn fodlon gweithio gyda'i gilydd. Trwy gydweithio'n agos a thrwy gael gweledigaeth glir, bydd modd creu bywyd newydd yn y dref."*

Roedd cydweithredu a datblygu dulliau arwain a gweledigaethau clir ar gyfer y dref hefyd yn flaenoriaeth i'r rhai a oedd yn dymuno esgor ar newid yn Llanidloes. Mae LSI9 (busnes) yn cynnig disgrifiad byw o'r 'symud ymlaen' hwn, lle sonnir am ddiffyg strwythur:

*"Sefyllfa yn llawn dryswch… nifer o wahanol garfannau, ymrafael mewnol, neb yn arwain strwythur cyfundrefnus, effeithiol… dylid canolbwyntio ar y cyfeiriad y mae angen i'r dref fynd iddo."*

Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn y gallai cyngor y dref gamu i'r rôl hon, ond roedd nifer ohonynt yn amheus o hyn o gofio'r cronfeydd, yr uchelgeisiau, y cyfrifoldebau a'r strwythurau sydd o dan ofal cyngor y dref.

## 3.3 Twf fel ffordd o barhau a goroesi

| **Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema** | **Llunwyr polisïau** | **Busnesau** | **Aelodau o'r gymuned** |
|---|---|---|---|
| 18/25 | 5/6 | 6/8 | 7/12 |
| 72% | 83% | 75% | 58.3% |

[105] MOSELEY, M. J. 2003. *Rural Development: Principles and Practice,* Llundain, Sage.

Tabl 7: Manylion am faint o gyfranogwyr o bob categori a siaradodd am dwf fel ffordd o barhau neu oroesi.

Mae a wnelo'r thema hon â busnesau a phobl nad ydynt yn rhoi blaenoriaeth i wneud arian. Mae'r grŵp hwn yn amrywiol, ac mae'n cynnwys rhai sy'n rhoi pwrpas wrth galon a chraidd eu nodau busnes (yn lle elw neu ochr yn ochr ag elw),[106] yn ogystal â busnesau sy'n cael anhawster i gael deupen llinyn ynghyd, a busnesau a gaiff eu rhedeg am resymau 'ffordd o fyw'.

Efallai fod y grymoedd croes (sef symud ymlaen a llif dirywiad) yn cydbwyso'r naill a'r llall, gan arwain at gaethgyfle. Awgryma hyn fod llwyddiant, o bosibl, yn golygu cynnal y sefyllfa bresennol. Dyma a ddywedodd LSI4:

*"Dw i ddim angen anelu'n uwch na hynny, mae fy sefyllfa bresennol mewn bywyd yn ddigon. Rydw i'n dymuno gallu fforddio talu'r biliau sy'n dal i godi, siŵr o fod, felly rydw i'n eithaf bodlon aros o fewn y llinell sy'n mynd i fyny graff, fel petai – nid gwneud rhagor o elw o angenrheidrwydd, ond cadw canran fy elw yr un fath. Mae hynny'n destun pryder."*

### 3.3.1 Busnesau ffordd o fyw

Ni chaiff Llanidloes na Llangefni eu hystyried fel trefi lle mae pobl yn gwneud llawer o arian neu gyfoeth. Caiff Llanidloes, yn arbennig, ei hystyried fel tref sy'n cynnig ffordd arbennig o fyw. Yn ôl LSI11 (aelod o gymuned Llanidloes):

*"Rydw i'n credu bod y mwyafrif o'r bobl yma, nid er mwyn gwneud eu ffortiwn, ond gan eu bod yn dymuno cael ffordd arbennig o fyw sydd rywfaint yn dawelach. Dw i ddim yn credu bod pobl yn mynd ar drywydd arian mawr, ond mae pawb angen digon i oroesi."*

O'r safbwynt hwn, ystyriwyd bod byw a gweithio yn y dref, yn ogystal â bod yn hunangyflogedig, yn cynnig ffordd arbennig o fyw, sy'n debyg i ddiffiniadau o 'fusnes ffordd o fyw'.[107] Roedd LSI11 yn rhan o fenter gymunedol a anelai at gynnig cyfleoedd i bobl fyw a gweithio yn yr ardal. Ystyriwyd bod twf yn rhywbeth a allai esgor ar ragor o gyfleoedd i adeiladu bywoliaeth, yn hytrach na'i fod yn arwain at ddenu neu redeg cwmnïau mwy neu gwmnïau sy'n tyfu.

Yn aml, roedd pobl Llanidloes (yn cynnwys aelodau o'r gymuned a llunwyr polisïau) yn feirniadol iawn o fusnesau bach ag oriau agor cyfyngedig. Ystyriwyd bod hyn yn faen tramgwydd o ran denu ymwelwyr a'i fod yn arwain at ddarparu gwasanaethau annigonol yn y dref. Er enghraifft, dyma a ddywedodd LSI8 (aelod o'r gymuned):

*"Mae yna ddiffyg ethos busnes. Er enghraifft, mae llawer o siopau bach hyfryd i'w cael yma ac mae pobl yn hoffi dod draw ac ymweld â siopau bach, ond dyw eu hamseroedd agor ddim yn rheolaidd o gwbl. (...) Nid hynny yn unig – yr agwedd yn gyffredinol."*

---

[106] YR ACADEMI BRYDEINIG 2021. Policy & Practice for Purposeful Business: The final report of the Future of the Corporation programme. Yr Academi Brydeinig.
[107] SKOKIC, V. a MORRISON, A. 2011. Conceptions of Tourism Lifestyle Entrepreneurship: Transition Economy Context. *Tourism Planning & Development,* 8, 157-169.

Y farn oedd y dylai busnesau roi'r lle blaenaf i gwsmeriaid, yn ogystal â bachu ar bob cyfle i agor eu drysau, cynyddu gwerthiannau ac agor eu drysau am fwy o amser yn ystod tymor yr ymwelwyr. Ond roedd y cyfranogwyr o'r farn bod rhai busnesau'n rhoi blaenoriaeth i bethau eraill (megis cydbwyso bywyd-gwaith neu ryngweithio cymunedol) ar draul effeithlonrwydd, agor eu drysau neu wneud rhagor o elw.

### 3.3.2 Strategaethau goroesi

Yn ôl nifer o fusnesau, roedd cynnal/parhau yn ffurf hollbwysig ar dwf, yn aml er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi. Er mwyn gwneud hyn, byddai'n rhaid iddynt gynyddu eu helw i liniaru costau cynyddol. Yn ôl LSI9 (busnes yn Llanidloes):

*"Rydw i'n credu bod twf yn golygu rhywbeth gwahanol nawr o gymharu â'r gorffennol, o gymharu â dwy flynedd yn ôl efallai. Mae twf yn golygu goroesi. Os nad ydych yn tyfu, yn y pen draw rydych yn cymryd cam yn ôl."*

I rai busnesau, mae newidiadau a welwyd ledled y byd wedi newid eu dyheadau o ran twf ac wedi peri iddynt fod yn fwy gochelgar o fuddsoddi ac ehangu. Ond yn aml, mae parhau i fod yn fusnes bach yn ffordd o gadw gorbenion yn isel ac yn ffordd o allu gwrthsefyll sefyllfaoedd economaidd cyfnewidiol. Yn ôl LSI6 (busnes yn Llanidloes):

*"Rydw i'n hyderus iawn, oherwydd rydym wedi goroesi sawl dirwasgiad ac rydym wedi aros yn fusnes bach. A dyna'r ffordd orau. Cadw'r busnes yn fach, peidio â mynd yn rhy fawr (…) fel na fydd yn rhaid inni dalu gorbenion."*

Roedd y syniad y dylid cadw busnesau'n fach a chynnal busnesau ar ryw ffurf arbennig i'w weld yn gyffredin ymhlith busnesau yn Llanidloes ac yn Llangefni fel ei gilydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r modd mae busnesau bach yng Ngheredigion yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd, incwm digonol, goroesi yn yr hirdymor, a chynnig gwasanaeth da trwy gyfrwng gwybodaeth leol helaeth.[108]

### 3.3.3 Diben cymunedol

Yn ogystal â gwneud elw, roedd gan rai busnesau ddibenion eraill, yn cynnwys strategaethau cymunedol yn ymwneud â darparu gwasanaethau a meithrin cymunedau. Er enghraifft, dyma a ddywedodd LSI4 (busnes yn Llanidloes):

*"Rydw i'n gwybod bod pawb sy'n aros yma yn cael amser da, felly mae gen i lawer o gwsmeriaid rheolaidd. Mae'n well gen i wneud llai o arian a sicrhau bod pawb yn cael amser da ac yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn deg – mae hynny'n rhan fawr o'm hethos. Ac rydw i'n credu ei fod yn rhan o'n tref hefyd. Dyma pam rydw i'n byw yma. Mae ysbryd cymunedol gwych i'w gael yn y dref, yn ogystal ag ymddiriedaeth a gwerth y tu hwnt i arian, ac rydw i'n hoffi meddwl bod fy musnes i yn rhan o hynny."*

---

[108] JONES, L., HELEY, J. a WATKIN, S. 2015. Local Cultures of the Ceredigion Economy: Practices of Endogenous Development in Rural Mid Wales. *In:* MCDONAGH, J., NIENABER, B. & WOODS, M. (golygyddion) *Globalization and Europe's rural regions*. Llundain: Routledge.

## 3.4 Rhwystrau a naratifau

Bydd yr adran hon yn ymdrin ag amrywiaeth o naratifau'n ymwneud â rhwystrau twf a strategaethau twf a ddefnyddir mewn perthynas â'r themâu y soniwyd amdanynt uchod, cyn symud ymlaen at yr ail gyfres o themâu a dulliau twf.

### 3.4.1 Masnach ffisegol a dad-dwf direol

Yn aml, trafodwyd twf economaidd lleol mewn perthynas â chanfyddiadau o ddirywiad a heriau presennol, a ysgogir yn rhannol gan yr argyfwng costau byw, patrymau siopa gwahanol a phwysau rheoleiddiol. Yn amlwg, mae hyn yn cyd-fynd â'r 'llif dirywiad' sy'n gysylltiedig â'r trosiad 'symud ymlaen', a gysylltir yn aml â syniadau'n ymwneud â 'cholled' neu 'adael' – mynegir hyn trwy ddefnyddio geiriau fel *colli, wedi gadael, wedi mynd, wedi stopio* ac *wedi diflannu*.

Y farn oedd bod cynnydd mewn siopa ar-lein wedi cael effaith fawr ar drefi marchnad fel Llanidloes a Llangefni. Yn ôl I7 (aelod o gymuned Llanidloes):

*"Mae'r siopau ar y stryd fawr wedi newid, dyw Llanidloes ddim yn bwysig, mae'r un peth yn digwydd i bob tref. Rydw i'n credu bod pethau wedi newid oherwydd y Rhyngrwyd. Yn anffodus, rydw i'n credu y bydd yn rhaid i bob un ohonom addasu i'r newid yn hytrach na dymuno cael yr hen drefn yn ôl. Yn y dyfodol, rydw i'n credu y bydd pobl yn prynu pethau ar y Rhyngrwyd."*

Roedd y siopau ffisegol yn dioddef dad-dwf (neu symud tuag yn ôl). Yn bwysig, câi'r trefi eu disgrifio'n aml fel trefi nad oeddynt yn gyfoethog iawn, lle'r oedd gan y trigolion lleol rym gwario cyfyngedig.

Ceir cylch dad-dwf negyddol lle mae llai o gyfoeth ar y dechrau yn sbarduno llai o fuddsoddi a llai o gyfleoedd i fusnesu hyfyw, ynghyd â busnesau'n gorfod cau, gan beri i lai o bobl ymweld â'r trefi. O'r herwydd, mae llai o ymwelwyr yn ymweld â gweddill y busnesau. Yn ôl T2 (busnes yn Llanidloes), yr her fwyaf yw:

*"Nifer yr ymwelwyr yn Llanidloes, yn enwedig gan fod busnesau a allai ddenu ymwelwyr i'r dref yn cau."*

Soniodd nifer o gyfranogwyr Llanidloes am y modd mae cau tafarndai yn arwain at ddiffyg mannau i bobl loetran neu eistedd, gan beri i ymwelwyr adael y dref a gadael digwyddiadau'n gyflymach nag o'r blaen. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn gweld cyfleoedd – dyma a ddywedodd LSI8 (aelod o gymuned Llanidloes):

*"Fel arfer, yr hyn sy'n peri anhawster i bob busnes yw diffyg ymwelwyr. Mae angen iddyn nhw ystyried pam. (...) Ar rai adegau o'r flwyddyn, mae yna ddigonedd o bobl yn Llanidloes. Dyw'r sefyllfa ddim yn anobeithiol o bell ffordd. Ond gallai'r sefyllfa fod gymaint yn well pe bai pethau'n cael eu hystyried a'u cynllunio'n well."*

I LSI8, trwy fynd ati'n well i gynllunio amseroedd agor, cynllun strydoedd a dulliau o farchnata'r dref, ceir potensial mawr i lenwi siopau a denu rhagor o ymwelwyr.

Wrth ystyried twf, aeth y cyfranogwyr ati'n fynych i gymharu cyflwr presennol y dref â'r hyn y byddent yn ei ystyried yn dref lewyrchus. Soniwyd am siopau llawn, marchnad brysur a stryd fawr fywiog. Dyma a ddywedodd LSI11 (aelod o gymuned Llanidloes), er enghraifft:

*"Ar hyn o bryd, mae'r siopau'n wag. Rydym angen marchnad lewyrchus unwaith eto. Mae'r farchnad wedi hen weld ei dyddiau gwell, felly hoffwn weld marchnad fywiog a siopau llawn."*

Fel rheol, roedd y cyfranogwyr o'r farn ei bod yn amlwg y byddai'n ddymunol cael siopau llawn a marchnadoedd bywiog; ond yn achos y cyfranogwyr a gynigiodd esboniad, soniwyd am ddenu ymwelwyr i wario'u harian yn y dref, gan gyfrannu rhagor o gyfalaf at yr economi leol.

### 3.4.2 Marchnata, gweledigaethau a chydweithredu

Yn Llanidloes yn arbennig, roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr lleol o'r farn bod denu ymwelwyr yn hollbwysig i dwf y dref. Nid oedd llunwyr polisïau ar lefel sirol o'r farn y byddai hyn, o angenrheidrwydd, yn cynnig ateb, a gwelwyd amrywio o ran i ba raddau roedd y cyfranogwyr yn cefnogi twristiaeth.

Ym marn nifer o'r cyfranogwyr, roedd denu rhagor o dwristiaid ac ehangu'r sector twristiaeth lleol yn ddibynnol ar farchnata Llanidloes yn briodol a defnyddio dulliau cyfathrebu priodol mewn dalgylchoedd hollbwysig, fel Gorllewin Canolbarth Lloegr, yn ogystal â darparu gwybodaeth yn y dref ei hun. Roedd camau ar droed i sefydlu gwefannau â gwybodaeth ddigidol a gosod arwyddion newydd ar gyfer y dref. Roedd LSI9 (busnes yn Llanidloes) yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn ag eglurder yr arwyddion:

*"Maen nhw newydd fuddsoddi llawer o arian mewn arwyddion newydd. Am flynyddoedd, doedd ganddyn nhw ddim arwydd yn dweud 'Llanidloes'... yn ystod yr holl flynyddoedd rydym wedi bod yma, doedd yna ddim arwydd yn dangos mai Llanidloes yw'r dref rydych yn mynd heibio iddi ar y ffordd osgoi. Pwy, mewn difrif, sydd heb arwydd ar gyfer eu tref? Mae'n hollol hurt. (...) Ydy'r arwydd yn dweud 'Croeso'? Nac ydy. Mae'n dweud 'Llanidloes' (...) Nid 'Croeso i Lanidloes, rydych yn cyrraedd ein tref'. Dim ond 'Llanidloes'. Dyna fe. (...) Cymerwch ef neu beidio. Dewch neu ewch. Gwnewch beth fyw fyd fynnoch chi, jest ewch oddi yma (chwerthin). Dyw'r arwydd ddim yn groesawgar."*

Yn yr enghraifft hon, yn amlwg mae angen cyfleu bod Llanidloes yn dref groesawgar, gan dynnu sylw at asedau'r dref a chan sicrhau ei bod yn groesawgar, yn hytrach nag ennill elw yn bennaf trwy gyfrwng twristiaeth.

Mae mentrau cymunedol yn ceisio gweithio gyda'i gilydd i greu potensial gwell ar gyfer llwyddiant yn Llanidloes, yn bennaf trwy gynnal digwyddiadau i ddenu ymwelwyr a thrwy ddelio ag oriau agor afreolaidd[109] (sef rhywbeth sydd wedi peri i fusnesau twristiaeth beidio ag argymell y dylai eu gwesteion ymweld â'r dref). Cafodd y Siambr Fasnach ei hadfywio yn 2024 er mwyn ceisio adfywio'r dref, ond mae'n cael anhawster i berswadio busnesau i gymryd rhan. Yn ôl Llani I6 (lluniwr polisïau):

*"Mae grwpiau lleol, fel y Siambr Fasnach, yn dda, (...) ond er bod cryn dipyn o fusnesau wedi cael eu gwahodd i ymuno â'r grŵp, ychydig ohonynt sydd wedi derbyn y gwahoddiad, felly wn i ddim sut mae modd cael rhagor o fusnesau i weithio gyda'i gilydd."*

---

[109] Gweler hefyd: JONES, J. 2024. Ymchwil Gymunedol Llanidloes: Adroddiad i Gyngor y Dref, y Cyngor Sir a'r Siambr Fasnach.

Roedd gan fusnesau lleol wahanol flaenoriaethau – mae rhai busnesau'n cael eu rhedeg yn rhan-amser neu am resymau 'ffordd o fyw' ac nid ydynt yn dymuno ymestyn neu safoni eu horiau agor.

### 3.4.3 Rhwystrau sy'n wynebu busnesau bach

Dywedodd perchnogion busnesau fod eu gorbenion wedi cynyddu yn sgil prisiau ynni a thrydan uwch a chynnydd yn y Cyflog Byw, gan ddangos y grymoedd croes sy'n gwthio yn erbyn unrhyw symud ymlaen. Ond nid oedd rhai busnesau'n teimlo'n ddigon hyderus i gynyddu eu prisiau. Yn ôl LSI4 (busnes yn Llanidloes):

*"Rydw i'n tyfu fy musnes (…) trwy gael pobl i aros yn hwy, ond wn i ddim a yw hynny'n cyd-fynd â'r hinsawdd economaidd gyfredol i'r mwyafrif o bobl. Rydw i'n credu bod y mwyafrif o bobl yn mynd ar wyliau byrrach yn amlach, gan eu bod yn fwy fforddiadwy na gwyliau hir."*

Cafodd eu dyheadau o ran twf eu ffrwyno gan eu canfyddiad o'r hinsawdd economaidd gyfredol. Roedd y cyfranogwyr yn deall bod amryfal achosion wedi arwain at ddirwasgiad a dad-dwf, yn cynnwys Brexit, y rhyfel yn Wcráin a'r pandemig.

Yn achos y busnesau a gymerodd ran yn yr astudiaeth, dywedasant fod costau cynyddol yn sgil newidiadau rheoleiddiol a chyllidebol yn ystod hydref 2024 – er enghraifft y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ac ailgyfrifo trethi busnes – yn peri pryder iddynt ynglŷn â hyfywedd a chostau yn y dyfodol.

O ran maint elw, roedd un cyfranogwr a'i deulu wedi ysgwyddo caffi prysur dros yr haf. Pe bai pob aelod o'r teulu wedi cael cyflog sylfaenol, ni fyddai'r caffi wedi gwneud elw. Dywedodd perchennog busnes arall fod yna 'derfyn uchaf ar elw' – gellir esbonio hyn, o bosibl, gan y modd mae busnesau mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o orlwytho'u marchnad.[110]

## 3.5 Twf trwy gyfrwng cyfleoedd

| Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema | Llunwyr polisïau | Busnesau | Aelodau o'r gymuned |
|---|---|---|---|
| 22/25 | 6/6 | 6/8 | 10/12 |
| 88% | 100% | 75% | 83.3% |

Tabl 8: Manylion am faint o gyfranogwr o bob categori a siaradodd am dwf fel rhywbeth sy'n ddibynnol ar gyfleoedd, sgiliau a datblygu'r boblogaeth.

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar y boblogaeth a'r gallu i ailhyfforddi neu ddenu pobl ifanc yn y trefi hyn. Ceir dwy is-thema, sef: cyfleoedd swyddi ac addysg/hyfforddiant.

[110] FULLER-LOVE, N., MIDMORE, P., THOMAS, D. a HENLEY, A. 2006. Entrepreneurship and rural economic development: a scenario analysis approach. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 12**,** 289-305.

Roedd allfudo ieuenctid (sef pobl ifanc yn symud o'r ardal) a diffyg pobl ifanc yn dod i'r ardal yn destun pryder yn y ddwy astudiaeth achos, ond yn enwedig yn Llangefni lle câi hyn ei gysylltu hefyd â goroesiad y Gymraeg. Priodolwyd hyn yn fynych i gyfleoedd swyddi, yn enwedig mewn rolau proffesiynol, ynghyd â diffyg mynediad lleol at addysg a hyfforddiant, a phrisiau tai i ryw raddau, gan ddangos drachefn y grym 'dirywiad' croes sy'n wynebu pob ymdrech i symud ymlaen neu dyfu. Mae agweddau o'r fath yn gyffredin ymhlith rhesymau sydd wrth wraidd allfudo ieuenctid,[111] ond mae'n bwysig nodi bod penderfyniadau mudo yn gymhleth ac na ddylid tybio mai rhesymau economaidd yn unig sydd wrth eu gwraidd.[112] Fodd bynnag, nodwyd bod allfudo ieuenctid yn un rheswm pam mae busnesau yn y Gymru wledig yn cael anhawster i recriwtio staff â chymwysterau addas.[113]

### 3.5.1 Cyfleoedd swyddi

Ni cheir cyfleoedd swyddi sy'n cyd-fynd â dyheadau pobl ifanc bob amser. Ychwaith, nid oes pobl ar gael bob amser i lenwi swyddi gwag. Yn ôl LGI1 (busnes yn Llangefni):

*"Rydym yn colli ein pobl ifanc – ein dyfodol. Mae hyn yn digwydd mewn sawl ardal wledig yng Nghymru. Does dim gwaith ar gael. Roedd yna waith ar gael rhyw 50 mlynedd yn ôl, roedd digon o waith yma. Ac mi arhosodd fy ffrindiau yma, mi wnaethon nhw ymgartrefu yma a magu eu plant yn yr ardal. Ond, yn anffodus, mae pethau'n newid."*

Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng y gorffennol a'r presennol a ddisgrifir yn y datganiad hwn (er enghraifft: dim gwaith yn yr ardal nawr – arferid cael gwaith yn yr ardal) yn dangos grymoedd croes dirywiad yn glir. Yn ddiddorol, esboniodd yr un unigolyn nad oedd ei blant yn dymuno cymryd y busnes drosodd a'u bod, yn hytrach, wedi dilyn gyrfaoedd eraill. Awgryma hyn y ceir camgymhariad rhwng pobl sy'n ceisio swyddi ar y naill law a chyfleoedd swyddi ar y llaw arall – rhywbeth sy'n gyffredin mewn ardaloedd gwledig.[114] Yn ôl LSI7 (aelod o gymuned Llanidloes):

*"Diffyg gwaith. Does yna ddim swyddi yma. Rydw i'n gwybod bod yna westai, tafarndai sy'n cynnig Gwely a Brecwast. Rydw i'n gwybod eu bod wir angen gweithwyr. Mae'r sector lletygarwch yn cael anhawster i ddod o hyd i weithwyr, er bod pobl angen swyddi. Dw i ddim yn gwybod beth sy'n achosi hyn – efallai nad yw'r gwaith yn talu'n ddigon da neu efallai nad yw'r oriau'n addas."*

Roedd y cyfranogwr hwn yn gwybod bod busnesau'n cael anhawster i ddod o hyd i staff ac roedd yn cydnabod bod yna gamgymhariad posibl rhwng sgiliau, dyheadau swyddi, cyflogau ac oriau. Soniodd LGI5 (busnes yn Llangefni) am anawsterau o ran dod o hyd i bobl ifanc a oedd yn dymuno dilyn gyrfa yn y sector lletygarwch a bwyd.

---

[111] WOODS, M., HELEY, J., HOWELLS, H. a GOODWIN-HAWKINS, B. 2021. A Rural Vision for Wales - Thriving Communities for the Future: Evidence Report. Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth.
[112] LEWIS, H. a CUNNINGTON WYNN, L. 2024. ARFOR, out-migration and the Welsh language: Findings from recent research on out-migration to inform the work of the ARFOR II programme.: Prifysgol Aberystwyth.
[113] FULLER-LOVE, N., MIDMORE, P., THOMAS, D. a HENLEY, A. 2006. Entrepreneurship and rural economic development: a scenario analysis approach. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 12**,** 289-305.
[114] NYSTRÖM, K. 2021. Recruitment of scarce competences to rural regions: Policy perspectives. *Review of Regional Research,* 41**,** 211-227.

Gellir lleihau problemau recriwtio trwy ddatblygu gweledigaethau clir o ran sut fath o weithwyr mae'r busnesau'n dymuno'u recriwtio a thrwy bennu sut y byddai'r unigolion hynny'n elwa ar weithio yn y cwmni.[115]

Roedd LSI3 (busnes yn Llanidloes) wedi cael anhawster i berswadio gweithwyr proffesiynol i adleoli yno. Ei ateb oedd cyflogi hyfforddeion:

*"Y bwriad yw cael hyfforddai newydd [proffesiwn] y flwyddyn nesaf – nid o Lanidloes ei hun, dw i ddim yn credu, ond o'r cyffiniau. Mae pobl yn gallu gweithio gartref i raddau mwy nawr, ond y [cyfyngiad i'r cyfleoedd] yw'r math o swyddi sydd ar gael - dyna'r broblem."*

Gallai'r cyfle hwn yn gynnar yng ngyrfa gweithwyr proffesiynol ifanc eu galluogi i fynd ar drywydd eu nodau gyrfa yn Llanidloes. Trwy ddarparu cyfleoedd swyddi i bobl ifanc, gellir creu ymdeimlad y bydd y dref yn parhau ac yn tyfu trwy sicrhau y bydd cenedlaethau newydd ar gael i ddisodli cenedlaethau hŷn.

### 3.5.2 Addysg / Hyfforddiant

Mae sgiliau priodol yn angenrheidiol i fusnesau er mwyn iddynt allu datblygu a chamu yn eu blaen – trwy gyfrwng staff sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol a thrwy gyfrwng dysgu parhaus i fusnesau a rheolwyr.

Er mwyn denu pobl ifanc i'r ardal a sicrhau y byddant yn aros, mae angen cyfleusterau addysg a hyfforddiant priodol. Esboniodd LSI12 (lluniwr polisïau) nad oes prifysgol i'w chael ym Mhowys a bod:

*"ein myfyrwyr ôl-16 yn aml yn mynd dros y ffin i gael addysg. (…) Mewn theori, mae hynny'n newyddion da oherwydd mae'n costio llai inni. Ond, wrth gwrs, mae angen i bobl ifanc 18 neu 19 oed ddod yn ôl, a dyw hynny ddim yn siŵr o ddigwydd."*

Hefyd, mae angen darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant sy'n cyd-fynd ag anghenion busnes, gan alluogi busnesau i ffynnu a mynd i'r afael â'r camgymhariad rhwng y galw am swyddi a gweithwyr.

Ymhellach, mae angen hyfforddiant yn hytrach nag addysg ffurfiol. Tynnodd menter gymunedol yn Llanidloes sylw at gyffredinrwydd hunangyflogaeth a'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag mynd yn hunangyflogedig. Gobaith y fenter hon yw creu rhwydwaith lle bydd modd i bobl gyfnewid gwybodaeth a rhoi cynnig ar syniadau ar gyfer busnesau bach, gan liniaru'r risgiau ar eu cyfer. Bydd y twf yn cynyddu nifer y bobl a all ennill bywoliaeth o fewn y gymuned, gan fynd ati ar yr un pryd i feithrin sgiliau ac ysbryd cymunedol.

Er bod nifer o fusnesau'n gwybod am y cymorth a'r cyngor sydd ar gael, roedd nifer ohonynt, fel LSI6, o'r farn nad oedd y cymorth hwnnw'n addas i bawb:

*"Mae yna rai grwpiau cymorth busnes ar gael – rydym wedi ymchwilio i'r mater. Ond dydyn nhw ddim yn delio â phobl hunangyflogedig, fel masnachwyr marchnadoedd neu fusnesau lleol (…). Does yna ddim llawer o gymorth ar gael."*

Efallai nad oes gan fusnesau hunangyflogedig gymaint o amser i chwilio am gymorth. Dywedodd perchennog busnes o Langefni ei fod wedi dod o hyd i gymorth ar dafod

[115] PRYS, C., BONNER, E. a HODGES, R. 2024. Bilingual Workforce Recruitment Pack. ARFOR Prifysgol Bangor.

leferydd yn hytrach na thrwy gyfrwng y sianeli swyddogol, gan dynnu sylw at broblemau cyfathrebu posibl.

# 3.6 Yr economi sylfaenol

| Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema | Llunwyr polisïau | Busnesau | Aelodau o'r gymuned |
|---|---|---|---|
| 19/25 | 6/6 | 6/8 | 8/12 |
| 76% | 100% | 75% | 66.7% |

Tabl 9. Manylion am faint o gyfranogwyr o bob categori a siaradodd am dwf fel rhywbeth sydd wedi'i adeiladu ar yr economi sylfaenol

Mae tyfu a chynnal yr economi sylfaenol yn bwysig i bobl er mwyn iddynt allu teimlo balchder, gobaith ac ymdeimlad o berthyn ynglŷn â'u lleoedd. Er mwyn sicrhau hyn, mae angen gwariant cyhoeddus i ryw raddau, ond hefyd codir cwestiynau ynghylch pwy sy'n berchen ar yr adnoddu sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd beunyddiol. Mae darparu ar gyfer anghenion sylfaenol yn amcan pwysig ar gyfer unrhyw dwf sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

## 3.6.1 Ymdeimlad lleol o berthyn a gwasanaethau lleol

Mae'r economi sylfaenol a gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig llinell sylfaen ar gyfer nifer o bethau, yn cynnwys denu pobl i'r trefi, ansawdd bywyd, meithrin cymuned, y gallu i weithredu a'r galw am fusnesau. Disgrifiodd LSI11 (aelod o gymuned Llanidloes) ddad-dwf mewn gwasanaethau cyhoeddus:

*"Mae'r swyddfa bost yn mynd yn llai ac yn llai. Mae popeth yn lleihau. Maen nhw'n ceisio gwneud yr ysbyty yn llai, yn ceisio darparu llai a llai o wasanaethau. Rydych chi'n cael y teimlad bod toriadau'n cael eu cyflwyno ym mhobman. Mae'r llyfrgell wedi diflannu – yr unig beth sydd ar ôl nawr yw llyfrgell un stafell, ac maen nhw'n ystyried cau honno. Mae popeth allwch chi ymfalchïo ynddo yn eich tref yn diflannu ac yn dod i ben (...). Mae'n creu ymdeimlad o ddirwasgiad braidd."*

Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod trigolion ardaloedd gwledig yn poeni'n aml am ddirywiad mewn gwasanaethau a'u bod hefyd yn teimlo bod cau gwasanaethau yn arwydd o ddiffyg gofal y wladwriaeth amdanynt hwy a'u lleoedd.[116]

Mae'r sector cyhoeddus yn hollbwysig o ran ysgogi'r economi ranbarthol i gyflogi cyfran helaeth o'r gweithlu[117] a chontractio busnesau. Yn ôl LSI13 (lluniwr polisïau yn Llanidloes):

*"O ran ysgogi twf economaidd, mae llywodraeth leol ac asiantaethau cyhoeddus eraill, fel y gwasanaeth iechyd, yn eithriadol o bwysig, oherwydd mae cynifer o fusnesau'n cyflenwi llywodraeth leol. Felly, os ydych chi'n cyfyngu ar wariant llywodraeth leol, rydych chi'n*

[116] HJORT, E. 2023. Marginalisation through the eyes of the othered: Young adults choosing to live in rural Northern Sweden. *Journal of Rural Studies,* 97**,** 601-609.
[117] EARLE, J., FROUD, J., JOHAL, S. a WILLIAMS, K. 2018. Foundational economy and foundational politics. *Welsh Economic Review,* 26**,** 38-45.

*cyfyngu ar yr economi.. sy'n darparu ar gyfer y llywodraeth leol honno. Byddwn yn trwsio llai o ffyrdd, byddwn yn cyflogi llai o gontractwyr i wneud y gwaith."*

Mae cyni a thoriadau yn yr economi sylfaenol yn creu dad-dwf a grymoedd croes, gan ei gwneud hi'n anos i gynnal y *status quo*, a hefyd cânt effaith ganlyniadol ar y gymdeithas ac ar ddiwylliant. Mae toriadau a newidiadau yn y boblogaeth yn effeithio ar lefel y gwasanaethau a ddarperir, a gall hynny ddylanwadu ar natur lleoedd a chyfleoedd. Yn ôl LGI4 (lluniwr polisïau yn Llangefni):

*"Os bydd ein pobl ifanc yn gadael (...) bydd hynny'n cael effaith negyddol ar ein siaradwyr Cymraeg ac yna, yn amlwg, bydd hynny'n effeithio ar ein hysgolion cynradd, oherwydd mi fydd llai o blant ynddyn nhw. A dyna arwain at golli rhagor o swyddi yn y dyfodol; oherwydd os bydd llai o blant mewn ysgolion, bydd angen llai o athrawon. Ac yna, yn amlwg, bydd hynny'n effeithio ar brifysgolion a cholegau lleol, fel Coleg Menai."*

Mae hyn yn dangos sut y gall dirywiad mewn gwasanaethau a dirywiad yn y boblogaeth ei gwneud hi'n anos cyflawni twf o'r gwaelod i fyny oherwydd yr effaith ar iaith a diwylliant. Yn wir, aeth un o drigolion Llangefni ati i restru gwasanaethau cyhoeddus fel prif atyniadau'r dref – gwasanaethau fel y llyfrgell a'r ganolfan hamdden. Fodd bynnag, ychydig o'r cyfranogwyr yn unig a nododd ffyrdd o ddatrys diffyg cyllid. Yn ôl LSI8 (aelod o gymuned Llanidloes):

*"Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â'n cynghorwyr, rydym yn dweud wrthyn nhw beth yw ein meddyliau ac rydym yn eu gwahodd i gyfarfodydd ac yn ysgrifennu atyn nhw. Ond, wrth gwrs, mae toriadau mawr mewn gwariant cyhoeddus yn cyfyngu arnyn nhw. (...) Ond mewn gwirionedd, mae'n rhaid buddsoddi."*

Er bod perthynas gadarnhaol yn bodoli rhwng grwpiau cymunedol a chynghorwyr, credir yn aml nad yw cynghorwyr yn meddu ar ddigon o bŵer oherwydd cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus. Roedd llunwyr polisïau ar lefel sirol yn tueddu i deimlo o dan gyfyngiad o ran faint o arian a oedd ar gael iddynt.

### 3.6.2 Perchnogaeth gyhoeddus

Er bod llunwyr polisïau'n dymuno cynnig help a chymorth busnes er mwyn cyflawni gweledigaethau trefi ynglŷn â'r economi leol, o dro i dro mae'r tir a'r adeiladau perthnasol mewn dwylo preifat. Yn achos tir a oedd ym meddiant Cyngor Sir Powys, er enghraifft, yn aml nid oedd y tir hwnnw wedi'i leoli mewn mannau hygyrch neu resymegol ar gyfer ei ddefnyddio i ddatblygu tai neu safleoedd busnes. I raddau helaeth, roedd stryd fawr Llanidloes mewn dwylo preifat, ac o'r herwydd ni allai cyngor y dref wneud rhyw lawer i fynd i'r afael â rhenti uchel a siopau gwag. Yn ôl LGI4 (lluniwr polisïau).

*"Ond oherwydd bod gennym gynifer o fusnesau bach, mae hi'n anodd i'r cyngor gael effaith oherwydd mae'r adeiladau yn eiddo preifat i'w tenantiaid neu lesddeiliaid (...) felly mae'n anodd i'r cyngor ymyrryd."*

Ni fyddai asedau cyhoeddus, hyd yn oed, yn cael eu rheoli yn yr un ffordd o angenrheidrwydd, gan ddibynnu a fyddent yn eiddo i gyngor y dref neu i'r cyngor sir. Yn ôl LSI10 (lluniwr polisïau ar lefel y dref yn Llanidloes):

*"Mae gennym faes parcio am ddim yn Llanidloes, ond hefyd cawsom faes parcio arall wrth ymyl y Ganolfan Iechyd, sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, ac rydych yn gorfod talu £2.50 i barcio*

*yno. (…) Pe bai'r maes parcio o dan ein rheolaeth ni, mae'n debyg y byddech yn cael parcio yno am ddim."*

Mae tai yn rhan o'r economi sylfaenol, ac mae'r elfen hon wedi bod yn symud rhwng y sector cyhoeddus i'r sector preifat.[118] Soniodd llunwyr polisïau ar lefel Powys yn fynych am y modd y llwyddodd gwaith adeiladu tai Bwrdd Datblygu Cymru Wledig i esgor ar ddatblygu economaidd. Yn Llangefni, tueddai'r drafodaeth i ganolbwyntio ar brisiau tai ac roedd y cyngor sir yn prynu tai cymdeithasol yn ôl er mwyn gostwng prisiau tai, gan alluogi pobl ifanc a phobl Gymraeg i aros yn yr ardal.

## 3.6 Twf cynaliadwy

| Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema | Llunwyr polisïau | Busnesau | Aelodau o'r Gymuned |
|---|---|---|---|
| 17/25 | 6/6 | 7/8 | 4/12 |
| 68% | 100% | 87.5% | 33.3% |

Tabl 10: Manylion am faint o gyfranogwyr o bob categori a ddywedodd fod yn rhaid i dwf fod yn gynaliadwy.

Mae cynaliadwyedd yn darparu rheidrwydd a chyfle i ddatblygu yng Nghanolbarth Cymru. Mae arferion cynaliadwy yn cynnig pwynt gwerthu unigryw i nifer o fusnesau. Ym marn llunwyr polisïau, ceir cyfleoedd mewn perthynas â chynhyrchu ynni adnewyddadwy, buddsoddiadau seiliedig ar natur a diwydiannau gwyrdd, yn enwedig er mwyn creu diogeledd ynni a diogeledd bwyd a lleihau ein dibyniaeth ar gyllid grantiau ar gyfer datblygu.

Ar sail y safbwyntiau hyn, mae twf yn rhywbeth hirdymor, parhaus, cynaliadwy, ecogyfeillgar. Nid symud 'tuag i fyny' yw'r prif nod, ond canolbwyntio ar y dyfodol, gyda'r symud ymlaen yn dilyn y trosiad cysyniadol o 'amser fel rhywbeth sy'n symud yn ei flaen.[119] Ym marn LSI12 (lluniwr polisïau yn Llanidloes), nid oes modd i grantiau gynnig y cyllid cyson sy'n ofynnol ar gyfer creu twf:

*"Amserlenni afrealistig a gorfod aros am benderfyniadau… mae bron yn blentynnaidd mewn rhyw ffordd, fe gawson nhw'r rheolau gan Lywodraeth Cymru ac mae angen gwneud yr holl waith o fewn 12 mis. (…) ond ar ôl chwe mis rydych yn sylweddoli ei fod yn afrealistig, a gall hynny arwain at gynlluniau gwael os na fyddwn yn ofalus."*

Mynegwyd bod cyllid grant yn rhywbeth i'w groesawu, ond dywedwyd hefyd mai rhywbeth dros dro ydyw, a'i fod yn ansicr ac yn gosod cyfyngiadau. Yn ôl LSI14 (lluniwr polisïau yn Llanidloes):

[118] Ibid.
[119] MOORE, K. E. 2017. Elaborating time in space: the structure and function of space–motion metaphors of time. *Language and Cognition*, *9*, 191-253.

*"Fy mhrif amcan yw denu buddsoddwyr preifat, a symud cynhyrchu bwyd oddi wrth ddiwylliant cymorthdaliadau."*

Er mwyn cyflawni hyn, awgrymodd nifer o gyfranogwyr gyfleoedd yn ymwneud ag arferion cynaliadwy a datblygu economi werdd, yn cynnwys atebion seiliedig ar natur[120] – er enghraifft, cynyddu buddsoddiad y sector preifat trwy drefnu bod cwmnïau yswiriant yn rhoi tâl i ffermwyr am leihau llifogydd i lawr yr afon trwy roi arferion cynaliadwy ar waith ar eu tiroedd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Cenedlaethol 2040.[121] Mae'r modd y defnyddir tir ac adnoddau yn hollbwysig. Yn ôl LSI12 (lluniwr polisïau yn Llanidloes):

*"Bydd ein diwydiant yn cael ei gysylltu â ffynonellau pŵer, ffynonellau pŵer adnewyddadwy, mae gennym ddigonedd o gyfleoedd, mae'r ddaearyddiaeth yn fantais yn hytrach nag yn anfantais."*

Ymhlith y busnesau a gymerodd ran yn yr astudiaeth, cafodd cynaliadwyedd ei gysylltu â thwf posibl trwy gyfrwng dymuniadau a disgwyliadau cwsmeriaid. Er enghraifft, yn ôl LSI9 (busnes yn Llanidloes):

*"Dyna ein hethos, ein pwynt gwerthu unigryw. Dyna mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. Ac yn ychwanegol, rydym yn helpu i hyrwyddo hyn.. ymhellach na'r bobl sy'n ymweld â ni er mwyn helpu eraill i gydnabod mai i'r cyfeiriad hwn mae angen inni fynd."*

Roedd cynaliadwyedd yn rhan o ddiben y busnes hwn ac roedd yn rhoi arferion busnes bwriadus ar waith. Ond roedd cynaliadwyedd yn rhywbeth y dymunai cwsmeriaid ei gael hefyd. Ar draws y thema, ystyriwyd mai cynaliadwyedd oedd y ffordd ymlaen.

## 3.8 Syniadau traddodiadol ynglŷn â thwf

| Nifer y cyfweleion a siaradodd am y thema | Llunwyr polisïau | Busnesau | Aelodau'r gymuned |
|---|---|---|---|
| 14/25 | 6/6 | 5/8 | 3/12 |
| 56% | 100% | 62.5% | 25% |

Tabl 11: Manylion am faint o gyfranogwyr o bob categori a siaradodd am dwf mewn perthynas â chynnydd, gwerth ychwanegol gros a chynhyrchiant.

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar syniadau traddodiadol ynglŷn â thwf, fel cynnydd mewn cynnyrch domestig gros, gwerth ychwanegol gros, cyflogau, swyddi, gweithgynhyrchu, adeiladu, gwerthiannau, buddsoddiadau a throsiant. Mae'r termau sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn cynnwys geiriau fel 'mwy', er enghraifft "mwy o seilwaith"; 'llawer' ac 'ehangu', er enghraifft "llawer o fusnesau llwyddiannus sy'n dymuno ehangu

[120] MAES, J. a JACOBS, S. 2017. Nature-Based Solutions for Europe's Sustainable Development. *Conservation Letters,* 10**,** 121-124.
[121] LLYWODRAETH CYMRU 2021. Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

yma" (LSI12, lluniwr polisïau). Mae hyn yn adlewyrchu'r trosiad cysyniadol "mae mwy yn well".

Roedd yr ymagweddau hyn yn fwyaf cyffredin ymhlith llunwyr polisïau, ac fel arfer roeddynt yn gysylltiedig â syniadau'n ymwneud â Datblygu Gwledig Integredig, lle mae datblygu gwledig yn cyfuno amryfal sectorau,[122] ac ystyriaethau'n ymwneud â chynaliadwyedd a chanlyniadau cymdeithasol polisïau economaidd, a anogir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ôl LSI13 (lluniwr polisïau yn Llanidloes):

*"Mae'n derm haniaethol. (...) Cynnyrch Domestig Gros, neu Werth Ychwanegol Gros o dro i dro, yw'r ffordd safonol o fesur twf. Dyna sut rydym yn arfer mesur.. twf, mewn termau economaidd. Ond wrth gwrs, mae gwahanol fathau o dwf i'w cael. Twf cymdeithasol. Twf cymunedol. Mae'r gair 'twf' yn awgrymu gwelliant. (...) Ond o ran yr hyn rydym yn siarad amdano yn y fan hon, rydym mewn rhanbarth lle ceir incwm isel fesul pen o'r boblogaeth, cynhyrchiant isel, heriau economaidd a chymdeithasol enfawr oherwydd teneurwydd y boblogaeth wledig. Mae angen inni barhau i'w weld mewn termau ariannol, mae angen inni wella allbwn gros y rhanbarth ynghyd â chyfran unigolion o'r allbwn hwnnw. Felly, rydw i'n credu ei bod yn dal yn briodol inni sôn am y mater yn y termau hynny, yn y Gymru wledig, oherwydd mae hynny'n hollbwysig ar hyn o bryd. Ac yna, gyda lwc, fe gawn ni welliannau mewn ffyrdd eraill, o ran cyfleoedd cymdeithasol a chymunedol."*

Rhagdybir y bydd cyfleoedd cymunedol yn cael eu creu trwy gyfrwng twf mewn gwerth ychwanegol gros o gymharu â rhanbarthau eraill, ac y bydd cynnydd mewn gwerth ychwanegol gros fesul pen o'r boblogaeth yn arwain at gynyddu cyfoeth yn gyffredinol, er gwaethaf y ffaith nad yw'r dull mesur yn ystyried cyfanheddrwydd neu anghydraddoldebau incwm oddi mewn i ranbarthau.[123, 124] Ond er gwaethaf hyn, ymddengys mai'r diben yw lleihau anghydraddoldebau a gwella safonau byw.

Mae hyn yn gysylltiedig â dadleuon ynglŷn â'r angen am fewnfuddsoddiad. Os na cheir digon o arian yn y rhanbarth, bydd angen arian o fannau eraill. Roedd gan wahanol gyfranogwyr wahanol syniadau ynglŷn â phwy a beth a ddylai wneud hyn. Trafododd llunwyr polisïau y cymysgedd economaidd a'r angen i'r diwydiant gweithgynhyrchu gynyddu cyflogau fel y gellir rhoi'r gorau i ddibynnu ar swyddi yn y sector twristiaeth, y sector cyhoeddus a'r sector amaethyddiaeth. Er enghraifft, dyma a ddywedodd LG14 (lluniwr polisïau yn Llangefni).

*"Mae angen rolau gweithgynhyrchu da arnom er mwyn inni allu treulio amser yma ac aros yn annibynnol ar dwristiaid yn unig."*

Fodd bynnag, ar y cyfan ni chyflwynodd busnesau nac aelodau'r gymuned sylwadau manwl ynglŷn â'r angen am fewnfuddsoddiad, ac ni wnaethant fynegi amheuon. O ran unedau diwydiannol, dyma a ddywedodd: LSI7 (aelod o gymuned Llanidloes):

---

[122] BRISTOW, G. 2000. Structure, Strategy and Space:Issues of Progressing Integrated Rural Development in Wales. *European Urban and Regional Studies,* 7**,** 19-33.
[123] LANG, M. a MARSDEN, T. 2023. Territorializing sustainability: decoupling and the foundational economy in Wales. *Territory, Politics, Governance,* 11**,** 1635-1648.
[124] FROUD, J., HASLAM, C., JOHAL, S., TSITSIANIS, N. a WILLIAMS, K. 2018. Foundational Liveability: rethinking territorial inequalities. *Working Paper No.5.* Foundational Economy Collective.

*"Dw i ddim yn meddwl mai adeiladu rhagor o unedau yw'r ateb, oherwydd dw i ddim yn credu bod pobl yn dechrau eu busnesau eu hunain. Dw i ddim yn siŵr sut gellir denu busnesau i'r ardal, oherwydd dyw'r system ffyrdd ddim yn dda iawn, felly mae'n anos symud nwyddau i mewn ac allan o Gymru."*

Yn yr achosion hynny pan gâi twf ei weld fel 'ehangu' gan fusnesau – fel y gwelwyd gan eu defnydd o'r term 'mwy', er enghraifft – cydnabuwyd nad oedd cynnydd o'r fath bob amser yn ymarferol oherwydd amryfal gyfyngiadau, megis anawsterau staffio.

O'r herwydd, ystyriwyd bod twf gweithgynhyrchu yn annhebygol o ddigwydd oherwydd diffyg entrepreneuriaid gweithgynhyrchu a seilwaith, a hefyd oherwydd diffyg gweithlu.

Er bod y fargen dwf yn elfen y dylid ei chroesawu ym marn y llunwyr polisïau a gymerodd ran yn yr astudiaeth, mynegwyd amheuon a fyddai modd iddi arwain at newid hirdymor yn yr economi. Yn ôl LSI12 (lluniwr polisïau yn Llanidloes):

*"Rydw i'n credu bod llawer o bobl sy'n ymhél â datblygu economaidd nawr yn y sector cyhoeddus, fel fi, yn genfigennus o'r pwerau a'r strwythur a oedd gan y Bwrdd Datblygu."*

Ystyriwyd bod gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig lawer mwy o bŵer, arian, syniadaeth hirdymor a chapasiti i gymryd risgiau o gymharu â'r hyn y gall llywodraeth leol ei gyflawni trwy gyfrwng bargeinion twf.

# 4. Cwestiynau polisi hollbwysig

## 4.1 Sut y gall y llywodraeth hwyluso mwy o fuddsoddi yn yr economi, yn enwedig o ystyried seilwaith, pensiynau a busnesau bach a chanolig

Roedd y busnesau a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn gweithredu er budd eu cymuned. Sicrhau bod nwyddau ar gael, sicrhau bod gan bobl rywle i fynd a sicrhau eu bod yn cyfrannu at feithrin cymuned fywiog – roedd y pethau hyn i gyd yn amcanion hollbwysig i entrepreneuriaid. Er enghraifft:

*“Rydw i’n cefnogi’r economi leol oherwydd rydym mewn tref fechan sydd â llawer o dai teras bach a does gan bobl ddim digon o le yn eu cartrefi i wahodd eu teuluoedd i aros. Felly rydw i’n eu lletya ac maen nhw’n mynd â nhw allan yn ystod y dydd, felly yn sicr mae hynny’n help” – LSI4, busnes, Llanidloes*

*“Rydw i’n ceisio hyrwyddo ein hynys. Rydym yn gwneud ein gorau i ddod â gwaith i’r ynys.” – LGI1, busnes, Llangefni*

Ymhellach, mae mannau cymunedol yn gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywyd pobl a’u hymdeimlad o berthyn. Nid yw’r mannau hyn wedi’u cyfyngu i ganolfannau cymunedol pwrpasol yn unig; maent hefyd yn cynnwys busnesau pwrpasol[125] a seilwaith ffisegol y dref.

**Trwy fuddsoddi mwy mewn mentrau cymunedol a thrwy ddarparu rhagor o gymorth ar eu cyfer, gellir esgor ar effeithiau goferu uniongyrchol yn y lleoliad a helpu i leihau’r heriau cyson a gaiff eu dirnad fel grym croes sy’n llesteirio unrhyw symud ymlaen.** Mae ariannu a hwyluso mentrau cymunedol yn helpu cymunedau i feithrin sgiliau, gallu a chyfleoedd i gychwyn rhagor o gwmnïau a rhoi cynnig ar syniadau busnes newydd. Trwy greu mannau, busnesau a gwasanaethau sy’n denu pobl i’r dref, bydd modd denu rhagor o ymwelwyr/cwsmeriaid at fusnesau yn y cyffiniau.

**ARFER DA: CAFFI’R ‘HANGING GARDENS’ YN LLANIDLOES**

Mae caffi’r ‘Hanging Gardens’[126] yn rhedeg nifer o gynlluniau sy’n cyfrannu at ddatblygu economaidd lleol. Er enghraifft, mae’n cynnig profiad gwaith yn y caffi i bobl leol sydd ymhell o’r farchnad lafur, gan eu helpu i symud i swyddi eraill. Hefyd, mae’r caffi’n creu cyfleoedd i roi cynnig ar syniadau busnes a dysgu sgiliau entrepreneuraidd.

[125] YR ACADEMI BRYDEINIG 2021. Policy & Practice for Purposeful Business: The final report of the Future of the Corporation programme. Yr Academi Brydeinig.

[126] THE WILDERNESS TRUST. 2025. *The Hanging Gardens* [Ar-lein]. The Wilderness Trust. Ar gael ar: https://thehanginggardens.org [Cyrchwyd ar 7 Mawrth 2025].

Rhwng 2015 a 2022, cafodd bron i hanner y canghennau banciau yng Nghymru eu cau neu eu clustnodi ar gyfer eu cau.[127] Ar hyn o bryd, nid oes banc o gwbl yn Llanidloes; dim ond un peiriant codi arian sydd yn y dref; ac mae'r swyddfa bost y tu mewn i SPAR. Mae pobl yn poeni y bydd gwasanaethau fel ysbytai, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn cael eu cau, ac mae hyn yn achosi ansicrwydd iddynt yn eu bywydau beunyddiol[128]. Mae'r seilweithiau hyn yn hwyluso'r arfer o gynnal busnes, maent yn denu pobl i'r dref ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, ac maent yn gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol. Mae cael gwared â'r gwasanaethau hyn a chyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth – er enghraifft, deddfwriaeth yn ymwneud â threthi busnes a'r Cyflog Byw – wedi peri i fusnesau deimlo'n ansicr ynglŷn â'u gallu i barhau â'u gweithrediadau.

Mae twf yn ddibynnol ar wasanaethau a seilwaith sylfaenol, ac mae angen ystyried pwy sy'n berchen ar y rhain. Yn aml, nid yw grwpiau cymunedol na llunwyr polisïau lleol yn berchen arnynt, ac o'r herwydd ni allant reoli'r asedau hyn. **Mewn perthynas â seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig, dylid hyrwyddo'r arfer o bontio tuag at berchnogaeth gymunedol ddemocrataidd.**

**ARFER DA: TAFARN GYMUNEDOL YR HYDD GWYN YN LLANDUDOCH**
Tŷ tafarn hanesyddol oedd Tafarn Gymunedol yr Hydd Gwyn, a dyma oedd y tŷ tafarn gweithredol olaf yn y dref pan gaewyd ei ddrysau yn 2019.[129] Bu aelodau'r gymuned yn codi arian am ddwy flynedd, gan lwyddo i gael arian gan randdeiliaid, aelodau'r gymuned, yr UE trwy gyfrwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.[130] Mae'r dafarn wedi bod yn eiddo i'r gymuned ers 2021 ac mae'n gweithredu fel canolfan gymunedol a man cyfarfod. Mae'n cynnig bwyd lleol a gwaith i bobl leol drwy gydol y flwyddyn ac mae'n defnyddio cyflenwyr lleol.[131] O'r herwydd, mae'r fenter yn cefnogi'r economi leol mewn nifer o ffyrdd.

## 4.2 Sut y gellir llunio polisïau mewn modd a fydd yn cefnogi cynhyrchiant a thwf yn well

Mae'r ymchwil hon wedi pennu cysyniad cyffredinol o dwf fel 'symud ymlaen yn erbyn grymoedd croes', ochr yn ochr â themâu cysylltiedig fel meithrin cymuned, parhau, goroesi, o'r gwaelod i fyny, darparu cyfleoedd, yr economi sylfaenol a chynaliadwyedd; a dywedodd nifer fechan iawn o gyfranogwyr (llunwyr polisïau, fel arfer) fod cysyniadau 'traddodiadol' o gynhyrchiant a thwf 'tuag i fyny', fel gwerth ychwanegol gros, yn bethau y dylid eu chwenychu a'u hyrwyddo.

Nid yw diffiniadau cyfredol o dwf a chynhyrchiant yn cynnwys uchelgeisiau, safbwyntiau na chyfraniadau nifer o fusnesau a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon. Er bod rhai wedi bodloni ar oroesi, gan gredu nad oedd twf yn rhywbeth y gellid ei wireddu, gwelir bod nifer

[127] HIGGS, G., PRICE, A. a LANGFORD, M. 2022. Investigating the impact of bank branch closures on access to financial services in the early stages of the COVID-19 pandemic. *Journal of Rural Studies,* 95**,** 1-14.
[128] HJORT, E. 2023. Marginalisation through the eyes of the othered: Young adults choosing to live in rural Northern Sweden. Ibid.97**,** 601-609.
[129] TAFARN GYMUNEDOL YR HYDD GWYN. 2023. *The White Hart Community Inn St Dogmaels/Llandudoch* [Ar-lein]. Oracle-Web-Design - Lys Arundell. Ar gael ar: https://whitehartinn.cymru/about-us/ [Cyrchwyd ar 26 Chwefror 2025].
[130] Ibid.
[131] Ibid.

o fusnesau, fel busnesau 'ffordd o fyw', yn rhoi blaenoriaeth i bethau fel gwella'r gymuned, cydberthynas a thwf personol. Dylid dehongli ystyr twf a chynhyrchiant yn fwy ehangach na chynnydd mewn elw, cyflogaeth neu werth ychwanegol gros.

Mae angen sicrhau bod **cymorth busnes ar gael, sef cymorth busnes sy'n darparu'n benodol ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar bwrpas neu agweddau ffordd o fyw**, ond a allai elwa ar ragor o sgiliau i ddatblygu eu hamcanion a chyfrannu at dwf cymunedol.

**Trwy gydnabod ffyrdd amgen a chynaliadwy o ddehongli twf, efallai y bydd modd atal dicter ymhlith perchnogion busnesau sydd o'r farn nad yw eu gwerthoedd yn cyd-fynd â safbwyntiau polisi. Yn hytrach, gellid creu perthynas gadarnhaol gyda thwf fel gwelliant parhaus gan alluogi cymunedau a busnesau i ffynnu yn wyneb grymoedd croes.**

Yn bwysig, efallai na fydd polisïau a lunnir yn benodol i greu twf mewn cynhyrchiant yn esgor ar dwf mewn cyflogaeth,[132] felly **mae angen i bolisïau bennu eu nodau penodol yn glir a defnyddio dulliau mesur priodol i werthuso'r nodau hynny.**

## 4.3 Sut y dylai'r llywodraeth dargedu adnoddau er mwyn ysgogi twf economaidd a meithrin cadernid oddi mewn/rhwng lleoedd, gan sicrhau bod y manteision yn cyrraedd y cymunedau sydd fwyaf eu hangen?

Nid yw strwythur cyfredol datblygiadau bargeinion twf yn darparu o angenrheidrwydd ar gyfer buddsoddiadau penodol mewn mannau arbennig, yn enwedig wrth geisio denu mewnfuddsoddiad. Dyma a ddywedodd LSI12 (lluniwr polisïau):

*"Yn y Drenewydd (...), sef y dref fwyaf ym Mhowys... ceir mwy o seilwaith ar gyfer datblygu busnes, ac mae llawer o fusnesau llwyddiannus yn dymuno ehangu yma, a dydyn ni ddim yn mynd i ddweud wrthyn nhw am fynd i rywle arall."*

Ystyriwyd bod y buddsoddiadau hyn y tu hwnt i reolaeth y cyngor sir i ryw raddau, a chydnabuwyd y gallai hyn arwain at ddatblygu anghyson, yn ogystal ag achosi dirwasgiad ac arwain at gau canghennau gweithfeydd. Ymhellach, gallai achosi rhagfarn drefol mewn perthynas â mentrau datblygu pan fo buddsoddi'n digwydd mewn mannau â chysylltiadau cymharol dda a gweithluoedd.

Roedd creu economïau lleol llewyrchus yn bwysig i'r trefi marchnad hyn. **Un ffordd o wneud hyn, o bosibl, yw trwy gefnogi mentrau sy'n galluogi busnesau bach neu gynhyrchwyr crefftau a nwyddau lleol i roi cynnig ar eu busnesau.**

Mae enghreifftiau llwyddiannus o fentrau sydd wedi darparu cyfleoedd o'r fath yn cynnwys y prosiect manwerthu a gâi ei redeg gan Antur Cymru yn Aberystwyth, lle bu modd i stondinau marchnad dros dro werthu eu nwyddau dan do yn hen adeilad y Swyddfa

[132] DOBBS, M. a HAMILTON, R. T. 2007. Small business growth: recent evidence and new directions. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 13**,** 296-322.

Bost.[133] Enghraifft arall yw Marchnad Cynhyrchwyr Lleol Llandudoch[134] a gynhelir bob bore dydd Mawrth, lle mae cynhyrchwyr lleol yn gwerthu bwydydd ffres a nwyddau lleol.

## 4.4 Beth yw'r cyfnewidiadau rhwng mynd ar drywydd twf economaidd lleol a gwella cadernid economïau lleol?

Trwy osod twf economaidd lleol yn erbyn cadernid economaidd lleol, gellir arwain at ganlyniadau niweidiol, ac mae'n groes i'r cysyniad o dwf a welir yn y cymunedau, sy'n tueddu i edrych ymlaen. Mae angen adeiladu twf ar sylfeini cadarn, gan ystyried cynaliadwyedd a chenedlaethau'r dyfodol.

Yn yr astudiaeth hon, cafodd syniadau traddodiadol ynglŷn â thwf eu hannog bron yn gyfan gwbl gan lunwyr polisïau. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd busnesau'n gweld twf fel 'datblygu trwy symud ymlaen', rhywbeth a ysgogir gan y gymuned a chan gynaliadwyedd. Hyd yn oed yn achos busnesau a ystyriai fod twf yn golygu cynnydd mewn gwerthiannau neu drosiant, nid oeddynt yn anelu o angenrheidrwydd at dwf yn yr ystyr o 'ehangu' neu 'anelu'n uwch'.

Mae busnesau 'ffordd o fyw' yn arbennig mewn ardaloedd gwledig o'r farn nad yw arweiniad a chymorth y llywodraeth yn gweithio ar gyfer eu gwerthoedd a'u hamcanion arbennig nhw. Gellir esbonio hyn yn sgil y ffocws gwahanol sydd gan fusnesau a chymunedau lleol a llunwyr polisïau ar lefel sirol.

Adeiladu economi leol gadarn gydag eraill yn y dref, darparu gwasanaethau, denu ymwelwyr a chreu cyfleoedd i ragor o bobl ennill bywoliaeth yn y dref – dyma ddyheadau twf a welwyd yn gyffredin, yn enwedig yn Llanidloes. Mae camau o'r fath yn mynd ati ar yr un pryd i feithrin cadernid a chapasiti i gynhyrchu ychwaneg o elw, cyfleoedd gwaith a ffyniant yn y trefi.

Ar draws y sampl, roedd diddordeb y gymuned a'r busnesau mewn twf wedi'i wreiddio mewn cadernid lleol. Er mwyn annog hyn, dylid darparu **rhagor o gymorth ar gyfer mentrau cymunedol a chymdeithasol a dylid buddsoddi mwy ynddynt**, oherwydd mae mentrau o'r fath yn meithrin gallu cymunedol, ysbryd cymunedol a chyfleoedd, maent yn denu pobl i'r dref ac mae'n bosibl y byddant yn creu rhagor o gyfleoedd swyddi.

[133] ANTUR CYMRU. 2022. *A POP-UP retail project moved to bigger premises and is supporting more businesses than ever following a successful first year.* [Ar-lein]. Antur Teifi. Ar gael ar: https://anturcymru.org.uk/trading-space-in-aberystwyth-has-relocated/ [Cyrchwyd ar 3 Mawrth 2025].
[134] HANES LLANDOCH. 2025. *Local Producers Market every Tuesday throughout the year from 9am - 1pm* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.stdogmaelsabbey.org.uk/producers_market.php [Cyrchwyd ar 7 Mawrth 2025].

# 5. Casgliad ac argymhellion

Mae saith safbwynt ar dwf wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn, ac roedd chwech ohonynt yn gydnaws â throsiad cyffredinol sydd, yn groes i'r syniad traddodiadol o dwf fel gogwydd tuag i fyny, yn creu'r ddelwedd o symudiad ymlaen yn erbyn grym bygythiad cyson, eang, amlweddog o ddirywiad. Yn bwysig, y cysyniadau traddodiadol o dwf sy'n cyfeirio at gynnydd a gwelliannau yw'r rhai lleiaf cyffredin, ac fe'u defnyddiwyd bron yn gyfan gwbl gan lunwyr polisi yn hytrach na busnesau neu aelodau / mentrau cymunedol.

I'r cymunedau hyn, roedd twf yn ymwneud â bod yn well yn hytrach na bod yn fwy, ac roedd yn ymdrech a oedd yn gysylltiedig â gwerthoedd fel cymuned, cynaliadwyedd, ffordd o fyw, lle ac ansawdd bywyd da. Roedd tyfu yn ffordd o symud ymlaen, ac roedd symud ymlaen yn angenrheidiol er mwyn osgoi cael eich gadael ar ôl a wynebu dad-dwf direol.

Mae hybiau cymunedol sy'n cael eu creu trwy fusnesau, mentrau cymdeithasol neu fentrau cymunedol yn gwneud cyfraniad mawr at ymdeimlad o gymuned a thwf. Mae busnesau cymdeithasol a chymunedol yn rhan o symudiadau sy'n ceisio creu modelau economaidd sy'n rhannu cyfoeth yn eu cymuned, ac nad ydynt yn camfanteisio ar eraill.[135] Maent yn tueddu i ail-fuddsoddi gwarged er mwyn tyfu busnesau, defnyddio elw at ddibenion cymunedol, amgylcheddol neu gymdeithasol, a chreu cyflogaeth yn benodol ar gyfer pobl a oedd yn ddi-waith cyn hynny.[136]

## 5.1 Enghreifftiau o arfer da

Mae cefnogi mentrau lleol a darparu cyngor penodol ar gyfer nodau cymunedol busnesau bwriadus sy'n eiddo i'r gymuned neu fentrau cymdeithasol yn gallu helpu i roi hwb i'r economi leol, darparu cynaliadwyedd hirdymor a llenwi bylchau ac anghenion mewn marchnadoedd lleol.

Mae Blaenau Ffestiniog yn enghraifft dda o fusnesau bwriadus llwyddiannus sy'n eiddo i'r gymuned, lle mae mentrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn bodoli yn y rhan fwyaf o sectorau. Yn ogystal â chreu llawer o swyddi, maen nhw'n arwain at adnoddau yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gymuned.[137]

**ARFER DA AR GYFER RECRIWTIO**
Gall problemau recriwtio ddeillio o ddiffyg marchnata a chyfathrebu addas ynghylch natur swyddi. Mae Arfor ac Antur Cymru wedi dangos y gall addasu dulliau marchnata i ganolbwyntio ar werthoedd cymdeithasol neu bwyntiau gwerthu unigryw swyddi penodol arwain at lwyddiant recriwtio yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n allweddol bwysig nodi gwerthoedd penodol y swyddi sydd ar gael, yn gymdeithasol neu o ran dilyniant gyrfa, nodi cyfleoedd neu arferion gwaith, a chyfleu'r negeseuon hyn yn glir wrth gyfathrebu. Mae angen i fusnesau nodi pwy maen nhw eisiau eu recriwtio a sicrhau bod eu dulliau cyfathrebu yn canolbwyntio ar y cynulleidfaoedd hyn. Mae hyn

[135] TEIFI, I., CLARK, M., ALLIES, O. A GALLAGHER, P. 2023. Busnes Cymdeithasol Cymru: Mapio'r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2022. Aberaeron: Wavehill.
[136] Ibid.
[137] SEFYDLIAD BEVAN 2023. From capitalism to community wealth: Building new economies in Wales. Sefydliad Bevan.

yn cynnwys hysbysebion swyddi a phrosesau cyfathrebu eraill y cwmni, fel gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gall dulliau eraill o greu buddion cymunedol trwy sefydliadau nid-er-elw, ceisiadau am grantiau neu gymorth gan y sector cyhoeddus fod llawn mor fuddiol, ond gallant fod yn anodd eu cynnal yn yr hirdymor. Enghraifft o hyn yw'r prosiect 'Hanging Gardens' yn Llanidloes sy'n derbyn cyllid grant ar hyn o bryd er mwyn adfywio adeiladau amrywiol, creu hyb cymunedol gyda chaffi, oergell gymunedol, mannau ar gyfer grwpiau lleol, y celfyddydau, ac ymarfer a mentrau creadigol. Mae'r prosiect yn helpu i gyflogi pobl leol, meithrin sgiliau yn y gymuned a chynyddu cydlyniant cymunedol.

Mae Antur Cymru wedi cynnal prosiect manwerthu dros dro llwyddiannus iawn, gan ddechrau yn Aberystwyth gyda mannau prawf cyn agor yng Nghastellnewydd Emlyn ac Aberteifi yn ddiweddarach.[138] Roedd y mannau hyn yn gyfle i ddatblygu syniadau, rhoi cynnig ar gynhyrchion a sefydlu sylfaen cwsmeriaid, ond roedd tîm rhanbarthol o fentoriaid profiadol ar gael hefyd i roi cyngor ac arweiniad i fasnachwyr annibynnol, entrepreneuriaid a busnesau newydd.[139] Er bod y mannau masnachu prawf wedi dod i ben wrth i'r prosiect ddod i ben, mae cymorth busnes i fusnesau newydd a busnesau bach ar gael o hyd.[140]

## 5.2 Argymhellion ar gyfer ymarferwyr

Gan fod gan lunwyr polisi a chymunedau gysyniadau tra gwahanol ar y cyfan o dwf, bydd yn bwysig cydnabod pwysigrwydd symud ymlaen mewn ffordd gynaliadwy sy'n cael ei sbarduno gan y gymuned, gan ddatblygu cadernid yn erbyn heriau lluosog sy'n wynebu busnesau a grwpiau cymunedol. Mae tablau 12 a 13 yn cynnig awgrymiadau penodol ac esboniadau manylach ar gyfer ymarferwyr a llunwyr polisi, yn y drefn honno.

| Math o dwf a chrynodeb | Argymhellion ar gyfer ymarferwyr |
|---|---|
| **Twf fel ffordd o feithrin cymuned**<br>Roedd twf yn cael ei ystyried yn aml fel mater cymunedol yn hytrach nag yn ddyhead unigol, a nodwyd bod economi leol gref yn cynorthwyo cydlyniant cymunedol. | **Cydnabod twf cymunedol**<br>Dylai mentrau twf gael eu teilwra’n ôl y lleoliadau penodol y maent yn effeithio arnynt, gan gydnabod sut mae cymunedau’n gweld twf fel gweithgaredd cymunedol a beth mae hyn yn ei olygu i strategaethau twf a dyheadau twf. |

[138] ANTUR CYMRU. 2024. *MASNACHWYR yn mwynhau llwyddiant dechrau busnes gyda chefnogaeth Menter Antur Cymru.* [Ar-lein]. Antur Teifi. Ar gael yn: https://anturcymru.org.uk/cy/aberteifi-gofod-masnachu-lansio/ [Cyrchwyd 24 Chwefror 2025].
[139] ANTUR CYMRU. 2023. *Antur Cymru’n ehangu ei gynllun cefnogaeth busnes dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn llwyddiant y flwyddyn gyntaf.* [Ar-lein]. Antur Teifi. Ar gael yn: https://anturcymru.org.uk/cy/cymorth-busnes-lleol-ehangu-castell-newydd-emlyn/ [Cyrchwyd 24 Chwefror 2025].
[140] ANTUR CYMRU. *Cymorth Busnes Lleol* [Ar-lein]. Antur Teifi. Ar gael yn: https://anturcymru.org.uk/cy/localbusinesssupport/ [Cyrchwyd 24 Chwefror 2025].

| | |
|---|---|
| | **Hybiau cymunedol**<br>Dylid annog hybiau cymunedol fel mannau lle gall aelodau'r gymuned gyfarfod, rhyngweithio, rhoi cynnig ar syniadau busnes a meithrin cymuned. Gall mannau o'r fath ddenu unigolion i ganol trefi a chreu rhagor o gyfleoedd. |
| **Twf o'r gwaelod i fyny**<br>Mae'r broses o weld twf fel rhywbeth a ddylai ddeillio o bobl a lleoedd yn fwy cymhleth oherwydd barn a safbwyntiau gwahanol unigolion a grwpiau mewn cymunedau. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gweithio ar sail cydraddoldeb a chynhwysiant. | **Cydraddoldeb a chynhwysiant**<br>Mae angen i ddulliau twf sy'n seiliedig ar leoedd gydnabod allgáu a dynameg pŵer mewn lleoedd – ynghyd ag ymdrin â'r elfennau hynny – er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. |
| **Twf fel ffordd o gynnal busnes / goroesi**<br>Elw bach sydd gan fusnesau lleol yn aml, ond maent yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth i'w tref a datblygu'r gymuned. Fodd bynnag, roedd gwrthdaro yn codi weithiau oherwydd y canfyddiad bod dibenion amgen busnesau yn nodwedd o ddifaterwch neu ddiffyg entrepreneuriaeth. | **Ategu dyheadau cymunedol/dyheadau ffordd o fyw**<br>Dylid sicrhau bod cymorth busnes wedi'i deilwra ar gael i ficrofusnesau â dyheadau cymunedol neu ddyheadau ffordd o fyw, a hefyd i fusnesau hunangyflogedig, busnesau e-fasnach, busnesau digidol neu fusnesau heb safleoedd busnes penodol. |
| | **Rhwydweithiau cydweithredol**<br>Dylid gwella arlwy trefi trwy gyfrwng rhwydweithiau cydweithredol sy'n cynnwys amryfal randdeiliaid, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â threfi marchnad. |
| **Twf sylfaenol**<br>Mae angen seilwaith cyhoeddus a sectorau a gwasanaethau sylfaenol er mwyn sicrhau bod modd byw mewn trefi a chael ansawdd bywyd da. Mae cymunedau sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau yn lleol yn treulio mwy o amser yn yr ardal leol. Gall perchnogaeth gyhoeddus a chymunedol o'r seilwaith hwn gynyddu grym cymunedau dros gyfanheddrwydd eu lleoedd. | **Annog perchnogaeth gymunedol**<br>Dylid rhoi cymorth i gymunedau sy'n dymuno bod yn berchen ar seilwaith neu wasanaethau allweddol yn eu hardal. |
| **Twf trwy gyfrwng cyfleoedd**<br>Mae sgiliau, hyfforddiant ac addysg yn dylanwadu ar brosesau recriwtio busnesau a mudo pobl ifanc. Mae | **Targedu recriwtio**<br>Dylai busnesau hysbysebu swyddi gwag ymhlith eu darpar weithwyr, gan nodi'r gwerthoedd a'r cyfraniadau cymdeithasol penodol sy'n perthyn i'w harlwy swyddi. |

| | |
|---|---|
| mynediad at addysg yn effeithio ar y gallu i gadw a denu pobl ifanc ac ar y cyflenwad sgiliau ar gyfer y marchnadoedd llafur. Hefyd, mae'n bosibl y bydd gan fusnesau anghenion sgiliau a hyfforddiant nad ydynt yn ymwybodol ohonynt eu hunain. | Yna, dylid defnyddio'r arlwy a'r gwerthoedd busnes yn gyson ar draws y platfformau a ddefnyddir gan y busnes. |
| **Twf cynaliadwy**<br>Roedd hyd yn oed llunwyr polisi o'r farn nad yw dulliau gweithredu traddodiadol o sicrhau twf yn ddigonol. Roeddent yn pwysleisio'r angen am fuddsoddiadau cynaliadwy yn yr economi werdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur i ddisodli dibyniaeth anghynaladwy ar gyllid grant ar gyfer datblygu economaidd. | **Cymorth i fentrau cymdeithasol**<br>Cyngor i fusnesau sy'n dymuno bod yn fwy bwriadus, neu i fentrau sy'n dymuno rhoi dull 'menter gymdeithasol' ar waith er mwyn bod yn annibynnol ar gyllid grant. |
| **Twf traddodiadol**<br>Dim ond llunwyr polisi oedd yn mesur twf ar ffurf GVA y pen neu fel cynnydd, ac roedd ganddynt hwy hyd yn oed ystyriaethau ehangach yn aml. | **Diffiniadau 'addas i'r diben' o dwf**<br>Dylai diffiniadau o dwf a ddefnyddir wrth weithio gyda chymunedau fod yn seiliedig ar ddiffiniadau cymunedol, a hefyd dylent fod yn seiliedig ar ddiben yr ymyriadau. |

Tabl 1: Rhestru argymhellion yn benodol ar gyfer ymarferwyr mewn perthynas â phob dull o sicrhau twf a nodwyd yn yr astudiaeth.

## 5.3 Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi

| **Math o dwf a chrynodeb** | **Argymhelliad ar gyfer llunwyr polisi** |
|---|---|
| **Twf fel datblygu cymunedol**<br>Roedd twf yn cael ei ystyried yn aml fel mater cymunedol yn hytrach nag yn ddyhead unigol, a nodwyd bod economi leol gref yn cynorthwyo cydlyniant cymunedol. | **Cydnabod twf cymunedol**<br><br>Dylai mentrau twf gael eu teilwra'n ôl y lleoliadau penodol y maent yn effeithio arnynt, gan gydnabod sut mae cymunedau'n gweld twf fel gweithgaredd cymunedol a beth mae hyn yn ei olygu i strategaethau twf a dyheadau twf. |
| **Twf o'r gwaelod i fyny**<br>Mae'r broses o weld twf fel rhywbeth a ddylai ddeillio o bobl a lleoedd yn fwy cymhleth oherwydd barn a safbwyntiau gwahanol unigolion a grwpiau mewn cymunedau. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gweithio ar sail cydraddoldeb a chynhwysiant. | **Dangosyddion twf sy'n seiliedig ar leoedd**<br>Dylai pob polisi fod â dangosyddion penodol o'r cychwyn cyntaf – sef rhai'n ymwneud yn benodol â'r polisi a hefyd ag anghenion ac amcanion y lleoedd lle byddant yn cael eu rhoi ar waith. |
| | **Cydraddoldeb a chynhwysiant** |

| | |
|---|---|
| | Mae angen i ddulliau twf sy'n seiliedig ar leoedd gydnabod allgáu a dynameg pŵer mewn lleoedd – ynghyd ag ymdrin â'r elfennau hynny – er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. |
| **Twf fel ffordd o barhau/goroesi**<br>Elw bach sydd gan fusnesau lleol yn aml, ond maent yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth i'w tref a datblygu'r gymuned. Fodd bynnag, roedd gwrthdaro yn codi weithiau oherwydd y canfyddiad bod dibenion amgen busnesau yn nodwedd o ddifaterwch neu ddiffyg entrepreneuriaeth. | **Ategu dyheadau cymunedol/dyheadau ffordd o fyw**<br>Dylid sicrhau bod cymorth busnes wedi'i deilwra ar gael i ficrofusnesau â dyheadau cymunedol neu ddyheadau ffordd o fyw, a hefyd i fusnesau hunangyflogedig, busnesau e-fasnach, busnesau digidol neu fusnesau heb safleoedd busnes penodol.<br><br>**Cydnabod y manteision economaidd sy'n perthyn i fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned**<br>Mae busnesau sy'n eiddo i'r gymuned, a chanddynt ddibenion cymunedol, yn cael effaith fawr ar gyflogaeth, darpariaeth gwasanaethau ac ansawdd bywyd, ac o'r herwydd dylid eu cefnogi a'u hannog. |
| **Twf sylfaenol**<br>Mae angen seilwaith cyhoeddus a sectorau a gwasanaethau sylfaenol er mwyn sicrhau bod modd byw mewn trefi a chael ansawdd bywyd da. Mae cymunedau sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau yn lleol yn treulio mwy o amser yn yr ardal leol. Gall perchnogaeth gyhoeddus a chymunedol o'r seilwaith hwn gynyddu grym cymunedau dros gyfanheddrwydd eu lleoedd. | **Buddsoddi yn yr economi sylfaenol ac mewn perchnogaeth gymunedol**<br>Buddsoddi'n strategol mewn seilwaith, gwasanaethau, tai a seilwaith ffisegol trefi, gan alluogi'r cyhoedd neu'r gymuned i fod yn berchen ar asedau a ddefnyddir yn gyffredin. |
| **Twf trwy gyfrwng cyfleoedd**<br>Mae sgiliau, hyfforddiant ac addysg yn dylanwadu ar brosesau recriwtio busnesau a mudo pobl ifanc. Mae mynediad at addysg yn effeithio ar y gallu i gadw a denu pobl ifanc ac ar y cyflenwad sgiliau ar gyfer y marchnadoedd llafur. Hefyd, mae'n bosibl y bydd gan fusnesau anghenion sgiliau a hyfforddiant nad ydynt yn ymwybodol ohonynt eu hunain. | **Dosbarthu cyfleoedd addysg a hyfforddiant**<br>Dylid sicrhau mynediad at gyfleoedd hyfforddiant ac addysg mor agos â phosibl at bobl, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi hygyrch i bobl sydd mewn cyflogaeth ac sydd angen uwchsgilio. O'r herwydd, mae angen darparu hyn oll mewn ffyrdd hyblyg, a fydd yn hygyrch ledled Cymru. |
| **Twf cynaliadwy** | **Datblygu cynaliadwy** |

| | |
|---|---|
| Roedd hyd yn oed llunwyr polisi o'r farn nad yw dulliau gweithredu traddodiadol o sicrhau twf yn ddigonol. Roeddent yn pwysleisio'r angen am fuddsoddiadau cynaliadwy yn yr economi werdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur i ddisodli dibyniaeth anghynaladwy ar gyllid grant ar gyfer datblygu economaidd. | Dylai ymagweddau rhanbarthol at dwf ystyried amrywiaeth eang o ddangosyddion, yn cynnwys iechyd, gwahaniaethu, allgáu a diogelwch. |
| | **Dull hirdymor**<br>Dylid ystyried sut y gellir sicrhau bod strategaethau'r sector cyhoeddus yn fwy hirdymor ac yn annibynnol ar gyllid grant. |
| | **Ffyrdd cynaliadwy o fwrw ymlaen**<br>Dylid parhau i weithio tuag at gynaliadwyedd ac economïau gwyrdd ar lefel ranbarthol. |
| **Twf traddodiadol**<br>Dim ond llunwyr polisi oedd yn mesur twf ar ffurf GVA y pen neu fel cynnydd, ac roedd ganddynt hwy hyd yn oed ystyriaethau ehangach yn aml. | **Dulliau gwerthuso sy'n gweddu i'r targedau**<br>Dylid gwerthuso'r modd y cyflawnir polisïau trwy ddefnyddio dangosyddion sy'n mesur yn ddigonol y canlyniadau a chwenychir. Dylai ymagweddau rhanbarthol at dwf ystyried amrywiaeth eang o ddangosyddion, yn cynnwys iechyd, gwahaniaethu, allgáu a diogelwch. |

Tabl 2: Rhestru argymhellion yn benodol ar gyfer llunwyr polisi mewn perthynas â phob dull o sicrhau twf a nodwyd yn yr astudiaeth

# Cyfeiriadau a Ffynonellau

**Llyfrau a Phapurau Academaidd**


Alden, J., Lehmann, L., Martin, M. a Newcombe, V. 1983. *Regional development policies for rural areas: mid Wales,* Caerdydd, Yr Adran Cynllunio Trefol, Sefydliad Gwyddoniaith a Thechnoleg Prifysgol Cymru.

Banerjee, S. B., Jermier, J. M., Peredo, A. M., Perey, R., a Reichel, A. 2021. Theoretical perspectives on organizations and organizing in a post-growth era. *Organization,* 28, 337-357. DOI: https://doi.org/10.1177/1350508420973629

Beel, D., Jones, M. a Rees Jones, I. 2022. *City Regions and Devolution in the UK*, Bristol University Press. DOI: https://doi.org/10.51952/9781447353447.ch003

Bosworth, G., Annibal, I., Carroll, T., Price, L., Sellick, J. a Shepherd, J. 2016. Empowering Local Action through Neo-Endogenous Development; The Case of LEADER in England. *Sociologia Ruralis,* 56**,** 427-449. DOI: https://doi.org/10.1111/soru.12089

Braun, V. a Clarke, V. 2006. Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology,* 3**,** 77-101. DOI: https://doi.org/10.1191/1478088706qp063oa

Bristow, G. 2000. Structure, Strategy and Space: Issues of Progressing Integrated Rural Development in Wales. *European Urban and Regional Studies,* 7**,** 19-33. DOI: https://doi.org/10.1177/096977640000700102

Crafts, N. 2015. Economic growth: onwards and upwards?. *Oxford Review of Economic Policy*, 31, 217-241. DOI: https://doi.org/10.1093/oxrep/grv014

Demirel, P. a Danisman, G. O. 2019. Eco-innovation and firm growth in the circular economy: Evidence from European small- and medium-sized enterprises. *Business Strategy and the Environment,* 28**,** 1608-1618. DOI: https://doi.org/10.1002/bse.2336

Dobbs, M. a Hamilton, R. T. 2007. Small business growth: recent evidence and new directions. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 13**,** 296-322. DOI: https://doi.org/10.1108/13552550710780885

Dragoi, D. 2020. Economic growth versus economic development, *Atlantic Review of Economics (ARoEc)*, 4, 1-11. ISSN: 2174-3835

Drnovšek, M., Slavec, A. ac Aleksić, D. 2024. "I want it all": exploring the relationship between entrepreneurs' satisfaction with work–life balance, well-being, flow and firm growth. *Review of Managerial Science,* 18**,** 799-826. DOI: https://doi.org/10.1007/s11846-023-00623-2

Dubois, A. a Hedström, M. 2015. A Spatial Perspective on Small Firm Networking from a Rural Periphery - the Case of Swedish Norrland. *Yn:* Mcdonagh, J., Nienaber, B. a Woods, M. (goln.) *Globalization and Europe's rural regions.*

Earle, J., Froud, J., Johal, S. a Williams, K. 2018. Foundational economy and foundational politics. *Welsh Economic Review,* 26**,** 38-45. DOI: DOI: 10.18573/wer.146

Edwards, B. 1998. Charting the discourse of community action: Perspectives from practice in rural Wales. *Journal of Rural Studies,* 14**,** 63-77. DOI: https://doi.org/10.1016/S0743-0167(97)00048-X

Edwards, M.G. 2021. The growth paradox, sustainable development, and business strategy, *Business Strategy and the Environment*, 30, 3079–3094. DOI: https://doi.org/10.1002/bse.2790

Fuller-Love, N., Midmore, P., Thomas, D. a Henley, A. 2006. Entrepreneurship and rural economic development: a scenario analysis approach. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research,* 12**,** 289-305. DOI: https://doi.org/10.1108/13552550610687655

Gooberman, L. a Boyns, T. 2019. Awdurdod Datblygu Cymru: activities and impact, 1976 to 2006. *Yn:* MISKELL, L. (goln.) *New Perspectives on Welsh Industrial History.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Grebel, T., Pyka, A. a Hanusch, H. 2003. An Evolutionary Approach to the Theory of Entrepreneurship. *Industry and Innovation,* 10**,** 493-514. DOI: https://doi.org/10.1080/1366271032000163702

Hansen, T. 2022. The foundational economy and regional development. *Regional Studies,* 56**,** 1033-1042. DOI: https://doi.org/10.1080/00343404.2021.1939860

Harrison, J. a Heley, J. 2015. Governing beyond the metropolis: Placing the rural in city-region development. *Urban Studies,* 52**,** 1113-1133. DOI: https://doi.org/10.1177/0042098014532853

Higgs, G., Price, A. a Langford, M. 2022. Investigating the impact of bank branch closures on access to financial services in the early stages of the COVID-19 pandemic. *Journal of Rural Studies,* 95**,** 1-14. DOI: https://doi.org/10.1016/j.jrurstud.2022.07.012

Hjort, E. 2023. Marginalisation through the eyes of the othered: Young adults choosing to live in rural Northern Sweden. *Journal of Rural Studies,* 97**,** 601-609. DOI: https://doi.org/10.1016/j.jrurstud.2023.01.011

Howe, J. 1996. A Case of Inter-agency Relations: Regional development in Mid Wales. *Planning Practice & Research,* 11**,** 61-72. DOI: https://doi.org/10.1080/02697459650036459

Jones, L., Heley, J. a Watkin, S. 2015. Local Cultures of the Ceredigion Economy: Practices of Endogenous Development in Rural Mid Wales. *Yn:* Mcdonagh, J., Nienaber, B. a Woods, M. (goln.) *Globalization and Europe's rural regions.* London: Routledge.

Kudyba, S., Fjermestad, J. a Davenport, T. 2020. A research model for identifying factors that drive effective decision-making and the future of work. *Journal of Intellectual Capital,* 21**,** 835-851. DOI: https://doi.org/10.1108/JIC-05-2019-0130

Lakoff, G. a Johnson, M. 1980. *Metaphors we live by*. University of Chicago Press.

Lang, M. a Marsden, T. 2023. Territorializing sustainability: decoupling and the foundational economy in Wales. *Territory, Politics, Governance,* 11**,** 1635-1648. DOI: https://doi.org/10.1080/21622671.2021.1941230

Lewis, K. 2008. Small Firm Owners in New Zealand: In it for the 'good life' or growth? *Small Enterprise Research,* 16**,** 61-69. DOI: https://doi.org/10.5172/ser.16.1.61

Maes, J. a Jacobs, S. 2017. Nature-Based Solutions for Europe's Sustainable Development. *Conservation Letters,* 10**,** 121-124. DOI: https://doi.org/10.1111/conl.12216

Midmore, P. 2018. Rural development in Wales: looking backwards, looking forwards, *Welsh Economic Review*, 26, 21-28. DOI: https://doi.org/10.18573/wer.230.

Moore, K. E. 2017. Elaborating time in space: the structure and function of space–motion metaphors of time. *Language and Cognition*, *9*, 191-253. DOI: https://doi.org/10.1017/langcog.2016.6

Morris, D. 1995. Language and Class Fractioning in a Peripheral Economy, *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 16, 373–387. DOI: https://doi.org/10.1080/01434632.1995.9994613

Moseley, M. J. 2003. *Rural Development: Principles and Practice,* London, Sage.

Muraca, B. 2012. Towards a fair degrowth-society: Justice and the right to a 'good life' beyond growth. *Futures,* 44**,** 535-545. DOI: https://doi.org/10.1016/j.futures.2012.03.014

Miroshnychenko, I., De Massis, A., Miller, D. a Barontini, R. 2021. Family Business Growth Around the World, *Entrepreneurship Theory and Practice*, 45, 682–708. DOI: https://doi.org/10.1177/1042258720913028.

Nyström, K. 2021. Recruitment of scarce competences to rural regions: Policy perspectives. *Review of Regional Research,* 41**,** 211-227. DOI: https://doi.org/10.1007/s10037-021-00155-w

Peters, M., Frehse, J. a Buhalis, D. 2009. The importance of lifestyle entrepreneurship: A conceptual study of the tourism industry. *PASOS,* 7**,** 393-405. DOI: https://doi.org/10.25145/j.pasos.2009.07.028

Schneider, F., Kallis, G. a Martinez-Alier, J. 2010. Crisis or opportunity? Economic degrowth for social equity and ecological sustainability. Introduction to this special issue. *Journal of Cleaner Production,* 18**,** 511-518. DOI: https://doi.org/10.1016/j.jclepro.2010.01.014

Sharipov, I. 2015. Contemporary Economic Growth Models And Theories: A Literature Review. *CES working papers* VII.3: 759–773. Print.

Sieja, M. a Wach, K. 2019. The Use of Evolutionary Algorithms for Optimization in the Modern Entrepreneurial Economy: Interdisciplinary Perspective. *Entrepreneurial Business and Economics Review,* 7**,** 117-130. DOI: 10.15678/EBER.2019.070407

Skokic, V. a Morrison, A. 2011. Conceptions of Tourism Lifestyle Entrepreneurship: Transition Economy Context. *Tourism Planning & Development,* 8**,** 157-169. DOI: https://doi.org/10.1080/21568316.2011.573915

Steffens, P., Davidsson, P. a Fitzsimmons, J. 2009. Performance Configurations over Time: Implications for Growth– and Profit–Oriented Strategies. *Entrepreneurship Theory and Practice,* 33**,** 125-148. DOI: https://doi.org/10.1111/j.1540-6520.2008.00283.x

Stubbs, W., Dahlmann, F. a Raven, R. 2022. The Purpose Ecosystem and the United Nations Sustainable Development Goals: Interactions Among Private Sector Actors and Stakeholders. . *Journal of Business Ethics,* 180**,** 1097-1112. DOI: https://doi.org/10.1007/s10551-022-05188-w

Tenbrink, T. 2020. *Cognitive Discourse Analysis: An Introduction*. Cambridge: Cambridge University Press.

Waite, D. a Morgan, K. 2018. City Deals in the polycentric state: The spaces and politics of Metrophilia in the UK. *European Urban and Regional Studies,* 26**,** 382-399. DOI: https://doi.org/10.1177/0969776418798678

Welsh, M. a Heley, J. 2023. Rural regionalism in the 21st century: a tale of no cities. *Territory, Politics, Governance,* 11**,** 1439-1458. DOI: https://doi.org/10.1080/21622671.2021.1916579

Woods, M., Nienaber, B. a Mcdonagh, J. 2015. Globalization Processes and the Restructuring of Europe's Rural Regions. *Yn:* Mcdonagh, J., Nienaber, B. and Woods, M. (goln.) *Globalization and Europe's rural regions*.

**Adroddiadau Ymchwil ac Adroddiadau Ystadegol**

Bentham, J., Bowman, A., De La Cuesta, M., Engelen, E., Ertürk, I., Folkman, P., Froud, J., Johal, S, Law, J. a Leaver, A. 2013. Manifesto for the foundational economy. *CRESC Working Paper Series.* https://hummedia.manchester.ac.uk/institutes/cresc/workingpapers/wp131.pdf

Burvill, S. M., Cummings, B. a Bowen, R. From entrepreneurial ecosystems (EE) to purposeful ecosystems (PE) in Wales in a post covid era. ISBE Annual Conference 2022, 2022 York. https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/167369/1/Purposeful%20Ecosystems%20Paper%20%28002%29.pdf

Francis, D. a Henderson, P. 2004. Rural Community Development Practice in the United Kingdom and Ireland: A Scoping Paper. Carnegie Commission of Rural Community Development.

Froud, J., Haslam, C., Johal, S., Tsitsianis, N. a Williams, K. 2018. Foundational Liveability: rethinking territorial inequalities. *Working Paper No.5.* Foundational Economy Collective. https://foundationaleconomy.com/wp-content/uploads/2018/12/foundational-livability-wp-no-5-fe-collective.pdf

Griffiths, E., Sharp, N., Grunhut, S. a Woods, M. 2023. Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru. *Rhif Ymchwil Gymdeithasol 01/2023.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-01/gwerthusiad-o-leader-yng-nghymru_0.pdf

Jones, J. 2024. Ymchwil Gymuned Llanidloes: Adroddiad i'r Cyngor Tref, y Cyngor Sir a'r Siambr Fasnach.

Law, D. a Howes, R. 1972. *Mid-Wales, an assessment of the impact of the Development Commission Factory Programme,* London, H.M.S.O.

Lewis, H. a Cunnington Wynn, L. 2024. ARFOR, out-migration and the Welsh language: Findings from recent research on out-migration to inform the work of the ARFOR II programme. Prifysgol Aberystwyth.

MWIDA 1960. *Development in Mid-Wales : a review of the Mid-Wales Industrial Development Association 1957-1959, and recommendations on future action,* Aberystwyth, Cymdeithas Datblygu Diwydiannol Canolbarth Cymru.

Prys, C., Bonner, E. a Hodges, R. 2024. Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog. ARFOR, Prifysgol Bangor.

Teifi, I., Clark, M., Allies, O. a Gallagher, P. 2023. Social Business Wales: Mapping the Social Business Sector in Wales / Census 2022. Aberaeron: Wavehill. https://cwmpas.coop/wp-content/uploads/2023/04/CWMPAS-SBW-MAPPING-2023-English-FINAL.pdf

The British Academy 2021. Policy & Practice for Purposeful Business: The final report of the Future of the Corporation programme. The British Academy. https://www.thebritishacademy.ac.uk/documents/3462/Policy-and-Practice-for-Purposeful-Business-The-British-Academy.pdf

Woods, M., Heley, J., Howells, H. a Goodwin-Hawkins, B. 2021. Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig – Cymunedau Ffyniannus ar gyfer y Dyfodol: Yr Adroddiad Tystiolaeth. Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth. https://research.aber.ac.uk/cy/publications/gweledigaeth-ar-gyfer-cymru-wledig-yr-adroddiad-dystiolaeth/projects/

WRO 2004. Trosolwg o Bolisi ac Adnoddau sy'n Effeithio ar Gymru Wledig. Arsyllfa Wledig Cymru.
https://www.walesruralobservatory.org.uk/cy/sites/default/files/Trosolwg%20polisi%203071.pdf

WRO 2007. Trefi Bach a Threfi Marchnad yn y Gymru Wledig a'u Cefnwledydd. *Adroddiad Ymchwil 13.* Aberystwyth: Arsyllfa Wledig Cymru.
https://www.walesruralobservatory.org.uk/cy/sites/default/files/13%2520Market%2520Towns.pdf

**Papurau Polisi a Dogfennau Eraill**

Sefydliad Bevan 2023. From capitalism to community wealth: Building new economies in Wales. Sefydliad Bevan.

CLES., a Preston City Council 2019. How we built community wealth in Preston: Achievements and lessons. CLES & Preston City Council.

Tyfu Canolbarth Cymru 2020. Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru: Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf. Tyfu Canolbarth Cymru.

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru 2016. Fframwaith Gweithredu: Tyfu cynhyrchiant, arloesi, a swyddi ar draws Canolbarth Cymru. Aberaeron: Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Act 2015. Cardiff: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Comisiwn Cymunedau Cymraeg 2024. Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg: Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg. Caernarfon: Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-08/grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg.pdf [Cyrchwyd 28 Mawrth 2025].

Twf Gwledig - Grŵp Trawsbleidiol 2024. Creu Twf yn yr Economi Wledig: ymchwiliad i gynhyrchiant gwledig yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru 2021. Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2022. *Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru* [Ar-lein]. Llywodraeth Cymru. Ar gael: https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-2021-html [Cyrchwyd 26 Chwefror 2025].

Llywodraeth Cymru. 2025. *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion* [Ar-lein]. Llywodraeth Cymru. Ar gael: https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html [Cyrchwyd 26 Chwefror 2025].

**Adroddiadau Newyddion, Blogiau ac Erthyglau**

'2 Sisters: 700 jobs go as Anglesey chicken plant shuts', Herd, G, BBC News, 31 Mawrth 2023.
https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-65127304

*Antur Cymru'n ehangu ei gynllun cefnogaeth busnes dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn llwyddiant y flwyddyn gyntaf,* Antur Cymru, 11 Rhagfyr 2023
https://anturcymru.org.uk/cy/cymorth-busnes-lleol-ehangu-castell-newydd-emlyn/

Llwyddiant i siop dros dro wrth symud i safle mwy o faint a chefnogi mwy o fusnesau. Antur Cymru, 22 Rhagfyr 2022. https://anturcymru.org.uk/cy/gofod-masnachu-yn-aberystwyth-wedi-symud/

Cymorth Busnes Lleol, Antur Cymru, n.d. https://anturcymru.org.uk/cy/localbusinesssupport/

Marchnad cynhyrchwyr lleol bob dydd Mawrth trwy gydol y flwyddyn rhwng 9am a 1pm, Hanes Llandoch, 2025. https://www.stdogmaelsabbey.org.uk/producers_market.php

The Hanging Gardens, The Wilderness Trust, 2025. https://thehanginggardens.org

Tafarn Gymunedol yr Hydd Gwyn Llandudoch, Tafarn Gymunedol yr Hydd Gwyn. 2023. https://whitehartinn.cymru/about-us/

Masnachwyr yn mwynhau llwyddiant dechrau busnes gyda chefnogaeth Menter Antur Cymru, Antur Cymru, 20 Chwefror 2024. https://anturcymru.org.uk/cy/aberteifi-gofod-masnachu-lansio/

**Setiau data**

City Population: *Llanidloes,* Brinkhoff, T., 2023. https://www.citypopulation.de/en/uk/wales/admin/isle_of_anglesey/W04000024__llangefni/

City Population: *Llanidloes,* Brinkhoff, T., 2023. https://www.citypopulation.de/en/uk/wales/powys/W45000225__llanidloes/

Cyfrifiad 2021, Statws Gweithgarwch Economaidd Llanidloes, Blaen Hafren a Llandinam, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. https://www.ons.gov.uk/census/maps/choropleth/work/economic-activity-status/economic-activity-status-10a/economically-inactive-retired?geoLock=msoa&msoa=W02000106

Cyfrifiad 2021 Sgiliau Cymraeg (deall), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-lsoa-2011census

Ysgrifennwyd gan Dr Ellen Hjort, Dr Sophie Bennett-Gillison, yr Athro Thora Tenbrink, Dr Elen Bonner, Dr Eifiona Thomas-Lane, Bronwen Raine a Dr Julie Jones

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag: Ellen Hjort, Prifysgol Aberystwyth, L1 Adeilad Llandinam, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DB, elh103@aber.ac.uk

Seiliedig ar waith ymchwil a gwblhawyd gan Ellen Hjort, Sophie Bennett-Gillison, Eifiona Thomas-Lane, Fayedh Ayub, Perpetua Ifiemor, Elen Bonner, Thora Tenbrink Julie Jones, a Bronwen Raine.

Mewn cydweithrediad ag Antur Cymru

Ebrill 2025

Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig

Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, SY23 3DB

https://arsyllfa.cymru/cy/partneriaeth-polisi-ac-arloesi-lleol-cymru-wledig/

lpip@aber.ac.uk

Ariennir Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) i wella a hwyluso’r defnydd o ymchwil ac arloesi er mwyn helpu i lunio polisïau a darpariaeth ar gyfer datblygu cynhwysol a chynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru.

© Yr awduron, 2025

Gellir ailddefnyddio’r deunydd yn yr adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol o dan drwydded CC BY-NC ond rhaid cydnabod y ffynhonnell.

CYMRU WLEDIG

LPIP

RURAL WALES

www.lpip.cymru

lpip@aber.ac.uk

**Funded by**

Economic and Social Research Council

Arts and Humanities Research Council

Innovate UK

**Hosted by**

WISERD

**Core partners**

Aberystwyth University

Prifysgol Bangor University

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

CCRI

TfC

Centre for Alternative Technology Canolfan y Dechnoleg Amgen

SGEMA

antur cymru enterprise

Represent Us Rural